# Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 452 | Mehefin 2024 | Pris £1.50

# CYFARFODYDD BLYNYDDOL CYMANFA BEDYDDWYR CAERFYRDDIN A CHEREDIGION



Y rhai fu'n cymryd rhan yn yr oedfa bregeth

Wedi misoedd o baratoi gofalus fe ddaeth yr amser i gynnal cyfarfodydd y Gymanfa yng Nghalfaria Login ar ddydd Mawrth, 14eg Mai er anrhydedd i'r Llywydd, Eurfyl Lewis a enwebwyd gan Weithgor Gorllewin Myrddin fel Llywydd 2023-2024. Mae Eurfyl wedi bod yn ffyddlon iawn i Galfaria ers ei blentyndod gan gychwyn yn yr Ysgol Sul, cael ei fedyddio a'i dderbyn yn aelod cyn ei ddewis yn ddiacon ymhen amser. Ef yw ysgrifennydd gweithgar yr Achos ers nifer o flynyddoedd a chyn hynny fu'n drysorydd am sawl blwyddyn.

Ar y Sul blaenorol gwahoddwyd aelodau o Eglwysi eraill o'r ardal i ymuno mewn oedfa Gymun a hynny o dan ofal Alun Lenny, Caerfyrddin a chafwyd oedfa fendithiol o dan ei arweiniad.

Cychwynnwyd y cyfarfodydd drwy dderbyn o groeso'r aelodau a chael cwpanaid o de neu goffi a sgwrs ar y festri cyn mynd i'r capel ar gyfer y gynhadledd. Is-lywydd y Gymanfa, Y Parchedig John Treharne, Llwynhendy gymerodd at y defosiwn a chroesawyd pawb yn gynnes iawn gan Faith Wright ar ran Calfaria. Roedd y gynhadledd yn gyfle i dderbyn adroddiadau amrywiol ac ethol cynrychiolwyr a swyddogion a bu'r Parch Mary Davies, Llandeilo yn cyflwyno un o'i haelodau yn Providence, Cwmdu sef Dawn Richards fel darpar is-lywydd a braf oedd derbyn yn enwebiad a phawb yn unfrydol. Cyn cloi'r gynhadledd cafwyd gair gan Bill Davies, Caerdydd yn dwyn cyfarchion Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru.

Gwahoddwyd y Parch Rob Nicholls i bregethu yn dilyn y gynhadledd. Teimlodd yntau hi'n fraint gan ei fod yn sefyll ym mhulpud un o'i gyndeidiau y Parch D.S. Davies (Dafis Login) gyda'r gofeb iddo ar y mur y tu cefn i'r pulpud. Cyn gwrando ar ei neges cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parch Sian Elin Thomas a chafwyd pregeth rymus ac amserol gan y gennad. Wyn Evans, Cwmfelin Mynach, trysorydd y Gymanfa gyhoeddodd y fendith.

Bu'r Dr Christian Tucker-Williams, swyddog Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru yn rhoi cyflwyniad i'r cynadleddwyr ar Adroddiad 2041, sef adroddiad sydd wedi ei pharatoi gan yr Undeb i edrych tua'r dyfodol a sicrhau bod popeth mewn lle yn strategol a chyfreithiol wrth i achosion wynebu cyfnodau heriol ac i ddiogelu'r dystiolaeth Fedyddiedig yng Nghymru. Cafwyd cyflwyniad gwych ganddo a phleidleisiwyd yn unfrydol dros symud ymlaen â'r gwaith.

*parhad ar dudalen 6*

## Cylch Meithrin Hywel Dda yn ffarwelio â Mrs Jayne Williams




*Adroddiad ar dudalen 22*

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com



Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*



Bu'n rhaid i ni ffarwelio â'n hannwyl ast ddefaid Gymreig, Dyfi, rai wythnosau yn ôl. A hithau'n 15 oed, ac wedi treulio bron hanner ei hoes â chlefyd y siwgwr, cafodd fywyd rhyfeddol o faith.

Ac wedi iddi fod wrth ein hymyl am 15 mlynedd, naill ai wrth ein hochor neu gam y tu ôl neu y tu blaen i ni, mae'r cartef yn wag iawn ar hyn o bryd. Mae'r patrwm dyddiol o ofalu amdani ar chwal – y pethau hynny y byddai rhywun yn ei wneud yn gwbwl reddfol, ei bwydo a rhoi insulin iddi am 9 y bore a 9 yr hwyr, agor y drws pan fyddai'n cyfarth am ei bod eisiau mynd allan i'r ardd, edrych o nghwmpas wrth symud y gadair pan yn codi, rhag ofn i fi sathru ar ei phawennau, agor y drws, pan fyddem yn clywed swn crafu ewinedd yr ochr draw, gofyn yn gyson a oedd llidiart y ffald ( neu iet/giat y clos yn nhafodiaith yr ardal hon) ar gau rhag ofn iddi ddianc i'r hewl fawr.

Gallem restru degau yn rhagor o arferion dyddiol, nad yw rhywun yn cymryd sylw ohonyn nhw mewn gwironedd hyd nes i'r arferiad ddod i ben yn sydyn. Ac yng nghanol y diflastod a'r hiraeth amdani, mae'r llu atgofion sy'n llifo'n ôl yn dipyn o gysur.

Daeth hi atom yn 4 mis oed wedi i ni ddioddef lladrad yn ein tŷ. Ac fel nifer o gŵn bach, mae arwyddion o'r cyfnod hwnnw yn dal i fod yn y tŷ. Mae cornel y fainc wrth y bwrdd wedi ei difrodi ar ôl iddi ei gnoi, a rhai o lyfrau'r plant wedi colli ambell dudalen.

Ar y dechrau, roedd yn dipyn o jôc taw hi oedd yn mynd â fi am dro yn hytrach na fi yn ei thywys hi. Roedd ci defaid ifanc angen tipyn o ymarfer corff. Ac rwy'n cofio ei phrofiad cyntaf o ddŵr wedi iddi neidio i mewn i'r afon yn Sanclêr ar ôl i'w llygaid craff sylwi ar ddarn o fara yn arnofio yno. Cafodd gymaint o sioc, mi nofiodd i ochr draw'r afon a bu ei chymell i nofio yn ôl atom yn dasg a hanner. Ac mae'n rhyfeddol fod y profiad hwnnw wedi ei chreithio am byth. Wnaeth hi erioed fentro yn agos at unrhyw afon wedi hynny – yn wir roedd hi'n cadw pellter ac yn tynnu ar y tennyn pe bawn yn croesi unrhyw bont.

Daeth hi i ddysgu amrywiol eiriau, o 'pawen' i 'eistedd' i 'gorwedd' a byddai'n cyfarth bob tro y byddem yn gofyn 'Pwy sy' 'na?' A byddai 'Cynffon!' yn golygu cydio yn ei chwt, a throi mewn cylchoedd yn ddi-baid. A byddai cyffro mawr pan glywai'r geiriau 'Am dro!'

Ac oherwydd ei hanallu yn ifanc i gerdded yn bwyllog wrth fy ymyl, fe aed â hi am wersi ufudd-dod, neu wersi gwrando! Ac rwy'n cofio fel ddoe i'r ddwy ohonom edrych yn wirion bost ar hyfforddwr a ddaeth draw yn unswydd y diwrnod penodol hwnnw i roi tystysgrifau i'r cŵn mwyaf ufudd.

Roedd angen i bob ci yno, yn cynnwys Dyfi sefyll un pen y cae, tra roedd disgwyl i ninnau'r perchnogion weiddi 'Sit' a 'Stay.' Wrth gwrs, doedd Ddyfi ddim yn deall gair o Saesneg, felly wrth reswm, 'Eistedd' ac 'Aros' glywodd Dyfi, cyn i'r hyfforddwr wawdio'r ddwy ohonom, a nghyhuddo i o fod yn lletchwith. Yr agwedd fod yna wastad un sy'n ceisio bod yn wahanol. Teg dweud na chafodd hynny ei werthfawrogi gen i na Dyfi. Ac mae un peth yn sicr yn wir am gŵn – mae'n nhw'n wych am synhwyro pan nad yw eu perchnogion yn hapus. Fe wrandawodd Dyfi arnai wrth gwrs, ac eistedd a sefyll ar yr adegau cywir. Ac roedd hi'n gwybod fod Sa-fa-na yn golygu aros yn ei hunfan heb symud modfedd… ac nid y clwb nos yng Nghaerfyrddin!

Gast Gymreig a Chymraeg oedd Dyfi, a fu mor ffyddlon hyd y diwedd. Do, cawsom sbort a sbri am 15 mlynedd yn ei chwmni, ac ar waetha'r hiraeth, bydd y sgyrsiau amdani yn parhau ar yr aelwyd.

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR



Drws agored capel. Golygfa digon arferol heb ddim byd anghyffredin mi dybiwch. Wel golygfa digon cyffredin ar y Sul efallai. Er ar ôl dweud hynny, mae'n mynd yn fwy fwy anghyffredin gyda'r holl gapeli sy'n cau.

Golygfa byddech chi'n disgwyl ei weld ar y Sul.

"Agorwn ddrysau mawl
I bresenoldeb Duw;
Pan fydd ein calon ni'n y gân
Ei galon Ef a'n clyw."

Yr arferiad yw agor y drws i'r oedfa neu efallai oedfaon ar y Sul ac yna ei gau am weddill yr wythnos. 'Slawer dydd mi fyddai Cwrdd Gweddi neu'r Band of Hope, a Dosbarth Beiblaidd efallai yn ystod yr wythnos. Ond nawr, mae'n bur debyg mai ar y Sul yn unig bydd y drysau ar agor. A hynny, os o gwbl.

Ond nid felly ym Methlehem Newydd, Pwll-trap. Prif bwrpas yr adeilad yw bod yn addoldy wrth gwrs, ac fe agorir y drws ar y Sul yn ôl yr arfer. Ond yn ddiweddar, mi welwch ddrws y capel ar agor ar ddydd Mawrth ac ar ddydd Iau a thyrfa go lew o bobl yn dod drwyddo.

Ar gyfer beth? Wel ar ddydd Mawrth cynhelir Croeso Cynnes sef cyfle i'r gymuned alw i fewn i gael dished a chlonc mewn awyrgylch hamddenol a diogel. Mae cyfle i wneud ffrindiau a chael sbort. Does dim yn well i godi'r ysbryd na chael cyfle i chwerthin. Y tro cyntaf agorwyd y drws ar ddydd Mawrth ar gyfer Croeso Cynnes, daeth tua hanner cant o bobl.

Mae yna angen dirfawr i roi cyfle i bobl gyfarfod a'i gilydd unwaith eto. Un o sgîl effeithiau Covid a dim ond yn ddiweddar mae pobl wedi dechrau mentro i wneud hyn. Sylweddolwn bod yna unigrwydd mawr o'n cwmpas a bod pobl eisiau cwrdd a'i gilydd i siarad, rhannu gofid a chael siawns am glonc. Gwelwyd bod y rhestr hir o wirfoddolwyr yn ehangu gyda phobl yn cynnig helpu. Heb gynllunio ymlaen llaw, gwelwyd bod y gwirfoddolwyr yn elwa cymaint â'r bobl sy'n dod i Croeso Cynnes. Gwerthfawrogir eu cymorth parod.

Os i chi'n pasio heibio'r capel ar ddydd Iau, fe welwch y drws ar agor eto, ond y tro yma **dynion** sy'n mynychu. Dyma fan cyfarfod rheolaidd Sied Dynion Sanclêr. Does dim sied ganddynt, ac mae angen man cyfafod arnynt i drafod eu gofidiau a chael cyfle i rannu problemau. Felly byddant yn gwneud hynny yn y capel. Mae partneriaeth wedi'i ffurfio rhwng y capel â hwy gan eu bod yn gwneud tipyn o fanion bethau dros y capel megis chwynnu a thorri porfa. Maent yn cael storio eu hoffer yn un o'r siediau bach hefyd.

Gwn nad yw'n bosibl i wneud hyn ymhob capel. Efallai dylen fod wedi dweud yn y lle cyntaf bod corau'r capel wedi'u tynnu allan erbyn hyn ac mae cadeiriau esmwyth wedi'u rhoi yno yn eu lle gyda byrddau pwrpasol ar gyfer yr adegau yma. Nawr ni'n medru estyn gwahoddiad i'r gymuned gyfan i ddod i'r capel ar adegau gwahanol i'r oedfaon. Gwelir pwrpas i'r capel gan, nid yn unig yr aelodau, ond gan aelodau o'r gymuned ehangach. Cyn hyn nid oedd yn hysbys i bobl yr ardal, bod capel ym Mhwll-trap, ond nawr gwyddant amdano a beth mae'n ei wneud.

Oes mae angen " agor drysau mawl i bresenoldeb Duw" ond efallai bod angen ystyried medrwn wneud hynny ar wahanol adegau, nid ar y Sul yn unig. Ac nid ar gyfer oedfa'n unig. Ceir bendith o wneud y ddau a maent yr un mor werthfawr yn ngolwg Duw.

*Annalyn Davies*

# ***I'ch diddori*** *gan John Arfon*

**Dyma atebion y mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | X | O | O | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| O | X | X | O | X | O |
| X | O | X | X | 0 | O |
| O | X | O | X | O | X |
| O | O | X | O | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 1 | 4 | 6 | 5 | 9 | 3 | 2 | 7 |
| 3 | 5 | 7 | 2 | 8 | 4 | 6 | 1 | 9 |
| 9 | 6 | 2 | 1 | 3 | 7 | 4 | 5 | 8 |
| 7 | 9 | 5 | 3 | 4 | 6 | 2 | 8 | 1 |
| 1 | 4 | 8 | 7 | 2 | 5 | 9 | 6 | 3 |
| 6 | 2 | 3 | 9 | 1 | 8 | 5 | 7 | 4 |
| 4 | 3 | 6 | 5 | 7 | 1 | 8 | 9 | 2 |
| 2 | 7 | 9 | 8 | 6 | 3 | 1 | 4 | 5 |
| 5 | 8 | 1 | 4 | 9 | 2 | 7 | 3 | 6 |

**Atebion y Croesair**

Ar Draws

1. Parhau, 4. Datod, 7. Cyfarfodydd, 8. Afal, 9. Digio, 11. Adeilad, 13. Uwchben y, 15. Tramp, 17. Rhwyg, 18. Diolchgarwch, 20. Undod, 21. Niferus.

I Lawr.

1. Panama, 2. Hwyl, 3. Unawdau, 4. Dyfod, 5. Tad, 6 .Dyddio , 7. Camera, 10. Gwelwch, 12. Dwyrain, 14. Ysgaru, 15. Tadcu, 16. Pechod, 17, Rhwyf, 19 Oed.

**Dyma ateb yr ail bôs**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G | W | L | A | N | | |
| A | W | Y | R | E | N | |
| C | R | Y | F | D | E | R |
| | P | E | N | T | W | R |
| | B | R | A | D | W | R |
| | | T | A | R | A | N |
| C | A | R | T | R | E | F |

**Dyma cwrosw a chwilrif i'ch diddori y mis hwn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | O | | | X |
| | | | O | | |
| O | | | | | O |
| | | | | X | X |
| | | | | | |
| | | O | | O | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | | | 5 | | | | 6 | 4 |
| 4 | 7 | 5 | | | | 2 | | 1 |
| | | | | | | | | |
| | | 8 | | 9 | | 4 | 2 | |
| | | 7 | | 5 | | 3 | | |
| | | | | 8 | 7 | 9 | | |
| 3 | | | 7 | 6 | 2 | | | 8 |
| | 6 | | | | 5 | | | |
| | 4 | | 3 | | | | | |

**Y pôs cyntaf** y mis hwn yw llenwi y grid isod. Mae pob ateb yn cynnwys pedair llythyren, gyda llythyren olaf y gair cyntaf yn dechrau yr ail air ac yn y blaen. Os atebwch y cliwiau yn hollol gywir a'u rhoi i mewn yn y grid yn dilyn y trywydd, dylech gael yr ateb sydd ei eisiau trwy ddarllen y blychau llwyd - sef enw lle yng Nghymru. Cymerir ch, dd, ff. ng ac yn y blaen fel un llythyren.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | 2 | | | 3 |
| | 9 | | | 10 | | |
| | 14 | | | 15 | | |
| 8 | | | | | 11 | 4 |
| | | | 16 | | | |
| | 13 | | | 12 | | |
| 7 | | | 6 | | | 5 |

cliwiau ⇨

1. Gallu naturiol
2. Awyrgylch neu anian
3. Crefftwr trin coed
4. Prif fwyd Asia
5. Hylif ar fwyd
6. Set o ddillad dyn
7. Gwanllyd neu eiddil
8. Creadur clustiau hir
9. Ateb negyddol
10. Glaw wedi rhewi
11. Gronyn bach cemegol
12. Rwdins neu erfin
13. Coginio bara
14. Athrawiaeth Hindwaidd
15. Amser penodol
16. Saim caled mewn cannwyll

---

**Yr ail bôs** yw canfod y dywediad a’r awdur.

Wedi datrys y cliwiau a roddir, gosodwch y llythrennau yn y sgwariau priodol sy’n ymateb i’r rhifau.
Os gwnewch hyn yn gywir dylech gael yr ateb sydd ei eisiau.

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llytyhyren

Dyma’r cliwiau

Offer torri brethyn **(8) 14 – 7 - 42 – 27 – 4 – 25 - 17 – 22**
Echwynnu dros dro **(7) 11 - 33 – 38 – 34 – 13 – 16 – 20**
Arwydd â’r pen neu law **(6) 3 2 - 1 – 23 -36 - 5 – 30**
Llaw agored a charedig **(4) 21 – 6 – 40 -26**

10080 o funudau **(60) 12 – 9 – 8 – 10 – 29 – 47**
Arogl neu flas **(4) 35 – 2 – 28 - 41**
Wedi’i addurno ag aur **(6) 44 – 37 – 31 – 24 – 46 – 39**
Trychfylin **(6) 18 – 45 – 15 – 43 – 3 - 19**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | ’ | 4 | ■ | 5 | 6 | 7 | 8 | ■ | 9 | 10 | ■ | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | ■ |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | 20 | ■ | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | 31 | 32 | 33 | 34 | . | ■ |

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ | 35 | 36 | 37 | 38 | 39 | 40 | 41 | 42 | ■ | 43 | 44 | 45 | 46 | 47 | ■ |

---

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw’n iach ac yn mwynhau ychydig o heulwen y gwanwyn. Braf yw gweld cynifer wedi ymaelodi â’r Clwb 200 oddi ar y rhifyn diwethaf. Mae’ch cefnogaeth i’r clwb ac i’r Cardi Bach wir yn cael ei werthfawrogi. Os nad ydych wedi ymaelodi eisoes, beth am wneud y mis hwn? Mae’r gwobrau misol nawr yn £20 a £30!

**Dyma enwau’r aelodau diweddaraf:-**

Ann Jones, Hafan Deg, Rhiw’r Orsaf, San Clêr
Olive Davies, Bron y Gaer, Bancyfelin
Hywel a Sadie Davies, Brynclyd, Llandysilio
Denzil Davies, Maes-yr-Onnen, Gerddi’r Ffynnon, HDG
Gwyneth Davies, Maes-yr-Onnen, Gerddi’r Ffynnon, HDG
Eirian Davies, Maes-yr-Onnen, Gerddi’r Ffynnon, HDG
Geraint Phillips, Myddfai, Pwll-Trap
Heulwen Evans, Swn-yr-Afon, Llanglydwen
Alan Bowen, Parc Carafannau, Llandysilio
Margaret Owens, Glas y Dorlan, Llanglydwen
Eleri Jones, Glenview, Llanglydwen
Gerwyn ac Eleanor Williams, 1 Brynbanc, Login

**Llongyfarchiadau i’r canlynol am ennill ym mis Mai:-**

£30 - 244 - Eilir Davies, Efailwen
£20 - 721 - John a Wenfys Rees, Llanboidy

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,
*Rhian*




## BARA BRITH

Cynhwysion

4 owns o fargarin
Cwpaned bach o laeth
Cwpaned o siwgwr brown tywyll
6 -8 owns o ffrwythau sych
3-4 owns o ceirios

Dull

Rhowch y cyfan mewn sosban a toddi’r margarin
Gadewch i oeri.
Yna ychwanegwch:
8 owns o fflwr S.R
½ llwy de o bicarbonate o soda
½ llwy de o sbeis cymysg
2 wy
Pinsiad o halen

Curwch yn dda

Pobwch mewn ffwrn gymhedrol 150-160°C
am 1-1.5 awr

*parhad o dudalen 1*

Oedfa genhadol oedd yn agor gweithgareddau'r prynhawn a hynny o dan lywyddiaeth Llywydd Senana'r Gymanfa, Natalie Morgan, Aberteifi. Dwy o chwiorydd Calfaria fu'n darllen a gweddïo ar y dechrau sef Ceirios Jenner a Sian Davies. Ymhlith y rhai a gofiwyd amdanynt oherwydd salwch oedd Beti Thomas, Sanclêr, a fu'n ffyddlon iawn i waith y Senana. Y Parch Sian Elin Thomas siaradodd ar ran Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru a chafwyd gair ar ran Elsa Harflett a Misha Pedersen, Llywyddion Senana Cymru, gan Ann Bowen Morgan, Llanbedr Pont Steffan.

Cyn galw ar y siaradwraig wadd sef Sioned Graves, Swyddog Cenhadol a Chyfathrebu'r Undeb, pleser oedd neilltuo un arall o ffyddloniaid Calfaria, Faith Wright yn Llywydd Senana Caerfyrddin a Cheredigion am y flwyddyn a derbyniodd Faith y swydd yn ddiolchgar ac urddasol. Apeliwyd hefyd am gefnogaeth yr eglwysi tuag at Apêl Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe.



Pawb fu'n cymryd rhan yn yr oedfa Genhadol

Penllanw gweithgareddau'r dydd oedd Oedfa'r Llywydd yn yr hwyr. Yn dilyn y rhannau arweiniol o dan ofal dau arall o aelodau Calfaria, Nigel Vaughan a Betty Evans rhannwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru gan y Llywydd. Cyfoethogwyd yr oedfa gan eitemau hyfryd y ddeuawd adnabyddus Beti a Sian, dwy o aelodau Calfaria a hefyd Corlan o dan arweiniad Ceirios Jenner gyda Heather Jenkins yn cyfeilio



Pawb fu'n cymryd rhan yn Oedfa'r Llywydd

Y Parch John Treharne yw Llywydd nesaf y Gymanfa ac fe'i neilltuwyd i'r swydd gan Rhidian Evans, Ysgrifennydd y Gymanfa gyda'r Parch Aled Maskell yn offrymu Gweddi'r Neilltuo.

Cafwyd anerchiad arbennig gan Eurfyl wrth iddo orffen ei gyfnod fel Llywydd. Soniodd am y ffenest liw hyfryd sydd ar flaen capel Calfaria, sydd wedi tynnu ei sylw ers dyddiau plentyndod a bod y golau sydd yn dod trwyddi yn treiddio fel y golau sy'n dod fewn i'n bywydau ar adegau llon a lleddf yn ein hanes. Addas oedd canu geiriau Elfed cyn yr anerchiad -

'mae yn olau, ond cael gweld dy wyneb di'.

Diolch i Eurfyl am ei anerchiad gafaelgar a phwrpasol ac am ei gyfraniad cydwybodol dros flwyddyn ei lywyddiaeth.

Profwyd croeso cynnes iawn yng Nghalfaria Login a diolch yn arbennig i bawb fu'n gweithio'n ddiwyd yn paratoi ac am y wledd a gafwyd ar y festri amser cinio ac amser te - y cinio o dan ofal Robert James, Caffi Beca a'r te gan chwiorydd Calfaria. Diolch i bawb am bob cyfraniad ac am wasanaeth Betty Evans a Ceirios Jenner wrth yr organ gydol y cyfarfodydd. Derbyniwyd casgliadau teilwng hefyd gyda chasgliad yr oedfa genhadol at waith y BMS a chasgliad oedfa'r Llywydd tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

## PWYLLGOR BECA A'R CYLCH : CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at gasgliad blynyddol Cymorth Cristnogol yn yr ardal. Dyma'r manylion:

| Enw | Derbyniadau |
|---|---|
| Bethesda, Llawhaden | £25.00 |
| Blaenconin Llandysilio | £150.00 |
| Calfaria Login | £150.00 |
| Cefn y pant | £50.00 |
| Eglwys Clunderwen | £25.00 |
| Eglwys Santes Fair Maenclochog | £100.00 |
| Glandŵr | £75.00 |
| Horeb Maenclochog | £20.00 |
| Nebo Efailwen | £71.00 |
| Pisga Llandysilio | £150.00 |
| Rhydwilym | £150.00 |
| Seilo Tufton | £50.00 |
| Cymdeithas Bro Cerwyn | £500.00 |
| Y Parchedig a Mrs Ken Thomas | £50.00 |
| Mrs Annie Hammersley | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£1586.00** |

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

## Cofiwch Dryweryn!






Tryweryn heddiw. Argae ddŵr fawr yw Llyn Celyn heddiw. Mae tua 2.5 filltir o hyd a rhyw filltir o led. Gall gyrraedd dyfnder o 3 metr. Mae'n le gwych i ddod i ganwio neu geufadau.
Dewch i ymweld a rhan bwysig o'n hanes ac i weld y golygfeydd godidog sy'n nodweddiadol o'r ardal hon yng ngogledd Cymru.

Ar 21ain Tachwedd 1956 dechreuodd ymgyrch ar strydoedd Lerpwl i geisio stopio adeiladu cronfa ddwr yng nghwm Tryweryn. Cyngor Lerpwl oedd am foddi'r cwm er mwyn cyflenwi'r ddinas a dwr.

Roedd gwrthwynebiad mawr i'r cynllun a bu llawer o ymgyrcvhu a phrotestio. Cafodd pobl cymuned Capel Celyn gefnogaeth gan bobl ledled Cymru. Er gwaetha'r protestio, pasiwyd deddf ym mis Awst 1959 yn caniatau i'r cwm gael ei foddi.

Yn 1965 boddwyd pentref Capel Celyn a Chwm Tryweryn, Y Bala, Meirionydd er mwyn cyflenwi dwr i ddinas Lerpwl. Cafodd 800 erw o dir ei foddi, ac hefyd yr ysgol, y llythyrdy, y capel a'r fynwent er mwyn creu cronfa ddwr Llyn Celyn.
Boddwyd deuddeg fferm ac effeithiwyd ar diroedd pedair fferm arall.

Yn 2005, 50 mlynedd yn dilyn boddi Tryweryn, cynigiodd Cyngor Dinas Lerpwl ymddiheuriad swyddogol am fod mor ddideimlad yn y gorffennol ac am yr effaith ddinistriol ar gymued Capel Celyn.

---

## Colli Iaith - Cefndir y gerdd

LLENWCH Y BYLCHAU

Yn y ……………bu helynt a phrotestio mawr yng Nghymru oherwydd cynlluniau pobl ardal ………………..i foddi Cwm ……………………ger Y Bala er mwyn creu argae ddwr i ddiogelu digon o ddwr i bobl Lerpwl. Bu'n rhaid i drigolion Capel Celyn adael eu ………….yng Nghwm Tryweryn wrth i'r JCB's ddod i chwalu eu cartref. Rodd digwyddiadau fel hyn yn gyffredin iawn yng Nghymru yn y cyfnod hwn. Digwyddodd yr un math o beth yng Nghanol barth Cymru gyda chreu argaeau dwr …………………, a …………………….
O ganlyniad, cododd …………………….mawr i gynlluniau o'r fath led led Cymry gyda'r Cymry Cymraeg yn gweld boddi Cymru er mwyn rhoi dwr i'r Sae son yn ………………..arall o Loegr yn gormesu Cymru ac yn ceisio dinistrio'r ffordd o fyw ………………………y ……………………….a'r ………………….Cymraeg.
Cerdd gyfnod yn ymateb i ddigwyddiadau 1950au yw'r gerdd hon 'Colli Iaith'gan ……………

Dyma'r geiriau yn y drefn anghywir:-

| | | |
|---|---|---|
| 1950'au | Cartrefi | Claerwen, El\n |
| Diwylliant | Gwrthwynebiad | Harri Webb |
| Iaith | Lerpwl | Llanwddyn |
| Symbol | Traddodiadau | Tryweryn |

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Hendygwyn

Cynhalion ni'n cyfarfod mis Ebrill yn y Roadhouse, Hendygwyn. Aeth rhai ohonom ni am dro draw i'r hen Abaty Sistersiaidd lle bu Margarette yn adrodd peth o hanes hynod ddiddorol yr hen furddun, tra bu'r lleill yn mwynhau sgwrs a choffi yn y Roadhouse. Ar ôl ail ymuno 'da nhw, fe wnaethon ni i gyd fwynhau cinio blasus gyda'n gilydd ac fe glywon ni fwy o hanes yr Abaty.



Rhai o'r aelodau yn yr hen Abaty

Hefyd ym mis Ebrill aeth Jean, Cerrys, Ann Glanville a Margarette i ginio blynyddol Llywydd Cenedlaethol y de yng Ngwesty'r Cliff yng Ngwbert ar Ebrill 6ed. Cymaint oedd y galw am docynnau, bu raid cynnal dwy ginio – un yn y prynhawn ac un gyda'r hwyr. Mynychon ni un yr hwyr a bu côr Ar Ôl Tri yn canu i ni cyn swper yn ddi-gyfeiliant ac yn hollol fendigedig. Braf oedd gweld cymaint o hen ffrindiau ac fe geson ni araith bwrpasol iawn gan Geunor, ein Llywydd.

Ar y Sadwrn canlynol aeth Ann Lewis 'Ffawydd', Ann Glanville, Jean a Margarette i'r Neuadd ym Mronwydd i De Prynhawn Rhanbarth Caerfyrddin i godi arian i gancr y fron. Sian Thomas oedd y wraig wadd a chafwyd araith hynod ddiddorol ganddi am bwysigrwydd iaith. Soniodd Margarette yn ei haraith hi am ymweliad M y W a'r Senedd ar ddiwedd yr wythdegau i fynnu cael y fan bronbrawf i Gymru oherwydd 'mond yn Lloegr oedd hi'n gweithredu ar y pryd. Cafwyd te blasus tu hwnt a phrynhawn hyfryd yn cymdeithasu.



Cerflun Cranogwen

Ar y 7fed o fis Mai aethon ni ar ein trip blynyddol. Eleni penderfynon ni fynd i weld cerflun Cranogwen yn Llangrannog. Cwrddon ni â John M O Jones yn festri Capel y Wig, Pontarreg ac fe roddodd e dipyn o hanes Cranogwen i ni cyn mynd a ni ar daith i ddangos lle bu'r bwthyn lle cafodd hi ei geni, yr ysgol lle bu'n brifathrawes a'r tŷ lle bu hi'n byw gyda'i ffrind, Miss Thomas.

Lawr a ni wedyn i Langrannog i syllu mewn rhyfeddod ar y cerflun hardd ar bwys hen gapel Bancyfelin cyn mynd lawr i weld Carreg Bica a chael rhywbeth i dorri syched yn y Pentre Arms. Wedi ffarwelio â John, aethon ni i Chuckling Goats ym Mrynhoffnant i wrando ar Cerys, merch y perchennog yn olrhain hanes eu busnes llwyddiannus yn cynhyrchu Kefir sy'n cael ei werthu led led y byd! Diweddwyd y noson drwy fwynhau swper yn y Bryn a'r Bragdy ym Mrynhoffnant cyn gyrru adre drwy'r niwl!

Dymuna'r gangen wellhad buan i Jean Parri-Roberts ar ôl y llawdriniaeth ar ei phenglin a phenblwydd hapus yn 80 oed ar Fehefin 11eg.

## Cangen Gronw

Cyfarfu Cangen Gronw yng Ngherddi a Chanolfan Hywel Dda ar brynhawn Mercher, 22ain Mai i gloi y tymor. Cafwyd te prynhawn hyfryd i ddechrau a diolch i Christine a'i staff am y wledd.

Ar ôl cyfarfod busnes byr cyflwynodd Susan Davies, y llywydd, un o'n haelodau Val Davies sy â diddordeb arbennig yn y Ganolfan Wybodaeth. Cafwyd amser difyr yn gwrando ar hanes y ganolfan sydd wedi ei ffurfio ar yr un egwyddor â'r "Ty Gwyn" a ddisgrifir yn

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

llawysgrifau'r Oesoedd Canol. Ceir arddangosfa parhaol yn olrhain hanes y Brenin Hywel Dda a'i gyfreithiau yn ogystal â gweithiau celf disgrifiadol o wydr, bric, serameg a dur. Rhoddodd Val ychydig o hanes y Brenin a sut aeth ati i drefnu'r amrywiol ddeddfau Celtaidd oedd yn bod drwy draddodiad yng Nghymru bryd hynny. Synnodd yr aelodau at ddyfnder y wybodaeth sydd ar furiau'r ganolfan. Bu rhai o'r deddfau yn destun chwerthin gan eu bod yn estron i'n ffordd ni o fyw heddi.

Ar ôl cael amser i grwydro a gwethfawrogi'r wybodaeth tywysodd Val ni o amgylch y gerddi ac esbonio arwyddocâd pob un. Maent yn canolbwyntio ar wahanol agweddau o'r deddfau.

- Gardd yr Hollgoed - Cymdeithas
- Gardd y Fedwen - Trosedd a Cham
- Gardd yr Helygen - Gwragedd
- Gardd y Boblysen - Cytundeb
- Gardd y Dderwen - Brenin a Llys
- Gardd yr Onnen - Eiddo

Diolchodd Susan i Val am rannu ei gwybodaeth mewn ffordd mor ddiddorol. Agorwyd ein llygaid at bwysigrwydd hanes y Brenin Hywel Dda yn hanes Cymru. Os nad ydych wedi bod am dro, mae'n werth galw mewn i ymdrochi yn yr hanes a manteisio ar gwpaned o de a chacen yn y caffi.



Yr aelodau yng ngerddi Hywel Dda

## Cangen San Cler

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai ar Fai 14eg yn Yr Hen Ysgol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Annalyn. Cydymdeimlwyd â Rita ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith.

Roedd pawb wedi mwynhau te prynhawn y Rhanbarth a braf oedd deall y gwnaed elw o £5000 tuag at elusen Cancr y Fron. Enillwyd un o'r gwobrau raffl gan Iona.

Llongyfarchwyd Lilwen ar ddod yn 1af yn y gystadleuaeth blodau a hefyd trefniant blodau ar gyfer Cystadleuaeth Radi Thomas yn y Rhanabrth. Pob hwyl iddi nawr yn Y Sioe Fawr.

Croesawodd Annalyn y siaradwraig wadd sef Lowri Medi o Landysul. Eglurodd Annalyn nad oedd yn gwybod llawer amdani eto ond dyna sioc a gafodd pan ddeallodd iddi ei dysgu yn yr ysgol gynradd yn Llanfihangel ar Arth. Doedd heb ei hadnabod! Rhoddodd Lowri ychydig o'i chefndir, wedi bod yn greadigol erioed ond heb gael cyfle i wneud llawer yn y coleg yng Ngelli Aur ac Aberystwyth. Wedi gweithio gyda Undeb Amaethwyr Cymru a fel Swyddog Hyrwyddiad yn ystod Covid mae bellach yn gweithio fel Swyddog Safonau Masnach.

Yn ei hamser hamdden mae wedi dechrau creu gemwaith allan o glai a bellach mae'n gwerthu ar Gweplyfr, mewn siopau lleol, ffeiriau a stondinau. Â o gwmpas yn siarad â grwpiau a mudiadau ac mae'n cynnal gweithdai i blant ac oedolion. Mae wedi casglu swm sylweddol i elusennau. Cychwynnodd wrth greu clust-dlysau gan arbrofi ac ehangu i greu pob math o emwaith. Roedd yn braf ei gwylio yn creu gwahanol batrymau a chafwyd cyfle i brynu.
Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Beti-Wyn.

Rhoddwyd y wobr raffl gan Nia ac fe'i henillwyd gan Marian.
Mwynhawyd sgwrsio dros luniaeth blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol.

Bydd y gangen nawr yn cael seibiant dros yr Haf ac yn ail-gychwyn ar nos Fawrth, Medi 10fed yn yr Hen Ysgol pan y bydd noson gymdeithasol a chwaraeon bwrdd.

Croeso cynnes i aelodau newydd, cyswllt:
Beti-Wyn 01994 230966

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio
Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Mae gwyliau yn gyfle da i ddarllen ac yn sicr mae angen nofel afaelgar wrth dreulio oriau mewn maes awyr. Tua 15 mlynedd nôl penderfynodd 7 o gyfnitherod y dylem gwrdd yn flynyddol heblaw mewn angladdau ac ambell briodas deuluol. Belfast oedd ein cyrchfan eleni tua deufis nôl– rhai yn hedfan o Lerpwl, un o Lundain ac un ar gwch o Gaergybi i Ddulyn a thrên oddi yno. O Fryste y teithiais i gan lanio ym maes awyr y ddinas ond bu'n rhaid dychwelyd o'r maes awyr rhyngwladol sydd gryn bellter o ganol y ddinas. Roeddwn i'n gadael tair awr yn hwyrach na chriw Sir Fflint ac fel hanner Cardi gwell oedd rhannu tacsi. Doedd hynny ddim yn broblem ar ôl canfod cornel gysurus a nofel Llwyd Owen, **Helfa** i'w mwynhau. Dyma'r drydedd mewn cyfres o dair nofel am y ditectif Sally Morris a'r seithfed iddo ei lleoli ar stad Gerddi Hwyan – er ni fyddai angen i chi fod wedi darllen y rhai blaenorol. Merched cryf yw'r prif gymeriadau a'r dihiryn sydd ar drywydd dial yn seico troëdig - yn enwedig y disgrifiadau ohono 'n pigo ei drwyn! Ceir yma hefyd gam-drin domestig, cyffuriau ac achosion o ddwyn cŵn – a digon o densiwn i gynnal teithiwr blinedig.

Penwythnos yn Llundain wedyn i weld y ddrama *Nye* gyda Michael Sheen a'r llyfr yn y ces oedd **Drws Anna**. Dewisais y nofel am fod yr awdur, Dafydd Apolloni, yn ôl y broliant yn byw yn Llanrwst, tref y bûm unwaith yn gyfarwydd â hi – ac am ei bod yn mynd â ni i Baris. Atgoffodd hynny fi o wyliau yn y ddinas honno pan gawson ni aros mewn fflat oedd yn eiddo i ffrind ar y pryd. Ninnau wedi meddwl y byddem yn aros mewn lle moethus ond cyrraedd a dringo cannoedd o risiau cerrig serth i lawr uchaf tŵr troellog. Matras ar lawr oedd y gwely ac oergell, ffwrn a chelfi bach – ni fyddai modd cario unrhyw beth mwy i'r fan – ond roedd aros yng nghanol y ddinas yn rhad yn foethusrwydd yn wir. Dyma nofel y cefais flas anghyffredin arni. Mae'r disgrifiadau'n swyno, y delweddau'n trafod y cof a hanfod iaith – 'mae hen eiriau'n mynd fel llestri'r Sul'; 'mae iaith yn rhan o bwy ydan ni' – gallwn ddyfynnu'n helaeth ohoni. Cyfieithydd yw Iestyn Llwyd sy'n cyfieithu atgofion rhywun arall er mwyn i yntau 'wneud synnwyr o'i orffennol.' Mae yma athronyddu am beth yw cof a'r cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth ac Anna sy'n cynnig ffordd i ddod o hyd i atebion. Bydd rhaid ailddarllen hon i geisio ei deall yn iawn, mae cymaint o haenau gwahanol ynddi – nofel anghyffredin.

Llyfr a ddarllenais i *Lyfrau Llafar* yn ddiweddar oedd cyfrol Carys Eleri**, Dod 'nôl at fy nghoed** a oedd yn brofiad emosiynol tu hwnt. Coed yw teitlau'r penodau - y dderwen, y ffawydden, yr ywen - coeden marwolaeth, coeden afalau -cariad ac anfeidroldeb a'r goeden ewcalytpws -coeden dwy ran yr isfyd - sy'n mynd â ni trwy goedwig ei galar. Mae'n adrodd hanes dechreuadau ei gyrfa fel actores gan gyfleu perthynas arbennig rhyngddi â'i thad. Pan symudais i lawr i Sir Gâr, y swydd gyntaf a gefais am ddau dymor oedd yng Ngorseinon a rhannu car â'i thad o Bontyberem, yr athro chwaraeon a feddai ar 'gryfder a doethineb y dderwen'. Cafodd ei daro'n wael gan glefyd creulon *Motor Niwron* a hynny pan mae hithau'n awduro a pherfformio sioe un dyn am gariad gan fynd â ni i Gaeredin a Melbourne. Mae'n drafodaeth deimladwy eithriadol o'r profiad o ymdopi â galar. Bu farw ffrind agos iddi o gancr yn ystod yr un cyfnod hefyd. Mae'r ysgrifennu'n ingol o onest ond bûm yn chwerthin yn ogystal â llefen y glaw wrth ei ddarllen. Mae llawer i gnoi cil arno i unrhyw un sy'n galaru.

Cyfeiriais fis diwethaf at lyfrau ar restr fer gwobr Tir na n-Og a chyhoeddwyd yr enillwyr ym Meifod, felly llongyfarchiadau i Daf James, awdur **Jac a'r Angel** ar gyfer oedran cynradd a Megan Hunter am **Astronot yn yr Atig** i'r uwchradd. Dyw hi ddim yn rhy gynnar i ddechrau eich siopa Nadolig!

Cyfraniad
Llinos Thomas, Carreg Lwyd, Llangynin £10
*Diolch yn fawr*

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG


MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

# Atgofion Pasiant Terfysg Beca

Dyma atgofion Lloyd Jones, Tre-Ioan, Caerfyrddin (Delwydd, Efailwen gynt) am y pasiant gynhaliwyd yn Efailwen nol yn 1964, i goffau a dathlu 125 mlynedd ers cychwyn Terfysg Beca.


Lloyd Jones

Cynhyrchydd "Pasiant Mawr y Beca" oedd Clodwyn Phillips, prifathro Ysgol Gynradd Panytcaws ar y pryd. Roedd actio, canu, marchogion, ceffylau, gwisgoedd y cyfnod ac ati, yn rhan o'r pasiant a bu paratoi manwl ar gyfer y digwyddiad. A finne bryd hynny tua 16 oed, yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Hendy Gwyn ar Daf, fy nymuniad angerddol oedd cael bod yn un o'r bechgyn (neu merched ddylen i ddweud) fyddai'n cael chwalu'r iet yn gyrbibion rhacs!

Ond tristwch poenus! – mynnodd Mr Clodwyn Phillips fy mod yn cymryd rhan mewn deialog – ac yn waeth fyth, fy mod yn un o'r cwnstabliaid oedd yn gwarchod yr iet! Myn brain i, gweithred boenus a dwi dal heb faddau iddo!

Bu Lloyd yn gweitho ym myd addysg am y rhan fwyaf o'i yrfa, cyn newid trywydd i fod yn actor. Derbyniodd gerdyn "equity" yn y 90au a bu'n actio ar nifer o raglenni ar HTV a BBC gan gynnwys Pobol y Cwm. Mae ganddo asiant yng Nghaerdydd o hyd, ond nid yw'n teithio i fan honno nawr, gan ei fod yn bwrw mlan erbyn hyn! Mae'n dweud taw pinacl ei yrfa fel actor fydde cael chwalu un o iete Beca. Rwy'n siwr gellir trefnu hynny drwy ei wahodd i gymryd rhan pan fyddwn yn ail greu'r digwyddiad flwyddyn nesa – pan fyddwn gobeitho yn dadorchuddio cerflun o Twm Carnabwth.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Lloyd am ei gyfraniad hael o £500 tuag at ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth – gwerthfawrogwn ei gefnogaeth yn fawr. Gwelir llun o Lloyd uchod, wedi gwisgo fel cwnstabl ym mhasiant 1964. Mae Lloyd am fanteisio ar y cyfle i annog pawb i gefnogi'r ymgyrch, sy'n rhan bwysig o'n hanes a'n hetifeddiaeth. Mae Rubin Eynon o Gastell Nedd eisoes wedi ei benodi'n gerflunydd ac wedi dechrau ar y gwaith cynllunio.

Mae modd cyfrannu tuag at yr ymgyrch codi arian drwy'r ddolen gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth, gwneud taliad arlein i gyfrif banc Cymdeithas Cwm Cerwyn (30 91 65 01036767) neu drwy anfon siec, yn daladwy i Cymdeithas Cwm Cerwyn, i Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Mae llawer wedi dweud bod hi'n fwriad ganddynt i gyfrannu, ond yn oedi nes derbyn cadarnhad bod y prosiect yn mynd ymlaen.

Wel, mae'n swyddogol erbyn hyn, felly peidwch oedi mwy - mlan ma Canan bois bach, gan ddiolch mlan llaw am eich cefnogaeth.

# Cylchgrawn Cristion

Mae 3 person lleol sef Eurfyl Lewis, Llanglydwen; Sian Elin Thomas, Crymych a Heulwen Evans, Castell Newydd Emlyn newydd ddechrau ar y gwaith o gyd olygu cylchgrawn Cristion a bydd eu rhifyn cyntaf, sef rhifyn Gorffennaf / Awst, ar werth yn fuan. Byddant yn cyd olygu'r cylchgrawn am y dair mlynedd nesaf ac mae'r tri ohonynt yn edrych ymlaen yn eiddgar i drefnu ystod eang o erthyglau amrywiol, fydd gobeithio, yn apelio at bawb.

Y bwriad yw gwahodd pobol o bob oed i gyfrannu erthyglau ac i ddangos a pwysleisio, er ein bod yn byw mewn cyfnod o drai, yn grefyddol ac yn ysbrydol - bod y goleuni yn para i lewyrchu drwy'r tywyllwch. Y ffordd hawsaf yw tanysgrifio i dderbyn copi, ond y ffordd rhataf, yn enwedig os ydych yn byw gerllaw siop lyfrau Cymraeg, yw prynu copi fan honno. Mae manylion llawn am y cynnig arbennig i unigolion ac eglwysi isod, ac hyderwn y byddwch yn mynd ati i danysgrifio / brynu'r cylchgrawn yn fuan. Diolch o galon ymlaen llaw i chi gyd am eich cefnogaeth, gobeithio cewch flas ar yr arlwy.


## Pris Cristion a Thanysgrifiadau
## Cynnig Arbennig
## i Unigolion ac Eglwysi

Pris copi unigol o Cristion yw £3. Mae modd trefnu cael copi wedi ei bostio atoch yn uniongyrchol bob deufis. Gellir archebu sawl copi wedi'i ddosbarthu i un cyfeiriad am y prisiau arbennig yma. Cofiwch hefyd bod modd archebu copi o Cristion trwy unrhyw siop Gymraeg leol a'u casglu o yno **heb orfod talu am bris cludiant**.

| Nifer copïau | Cost am flwyddyn | Nifer copïau | Cost am flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 1 | £25.00 | 7 | £107.00 |
| 2 | £42.50 | 8 | £124.00 |
| 3 | £57.00 | 9 | £136.90 |
| 4 | £70.00 | 10 | £149.50 |
| 5 | £82.00 | 12 | £174.60 |
| 6 | £94.50 | 15 | £212.20 |

❐ Dymunaf archebu copi drwy'r post bob deufis fel 'tanysgrifiad personol' am £25.00

❐ Dymunaf archebu .......... copi o Cristion drwy'r post bob deufis fel 'tanysgrifiad eglwys'

❐ Amgaeaf siec am £ .......... yn daladwy i Cristion NEU ❐ Anfonwch ffurflen banc i mi

Enw ------------------------------------

Ffôn ------------------------------------

Cyfeiriad ------------------------------------

------------------------------------

------------------------------------

Côd Post ------------------------------------

Ebost ------------------------------------

Ffôn ------------------------------------

**Dychweler y ffurflen hon at**
**D Rhys Jones, Gelli Deg, 19 Llantrisant Rise, Llandaf, Caerdydd, CF5 2PG**
Mae modd tanysgrifio hefyd trwy ymweld â gwefan
**www.cristion.net**

# BLAENWAUN

Llongyfarchiadau i Michael Llewelyn, Y Berllan, ar ei ddyrchadiad i Uwch Arolygydd Sir Benfro, yn Heddlu Dyfed Powys. Pob llwyddiant i ti yn y dyfodol.



Dymuna Ann Phillips, Y Gorlan, ddiolch am y rhoddion i 'Tenovus', swm o £890, wrth iddi gymryd rhan yn sialens Mai 10YFAN. Cwblhaodd y sialens mewn 18 awr heb egwyl. Camp arbennig. Traed lan nawr Ann.

Cydymdeimlwn ag Irene, Highlands gan iddi golli mab yng nghyfraith, sef Nigel oedd yn byw ym Mhenybont ar ogwr. Meddyliwn hefyd am Llinos ei wraig ac Alan ei frawd yng nghyfraith a gweddill y teulu. Maent i gyd yn ein meddyliau.

Rydym hefyd yn meddwl am Tim Evans, Pencraig sydd yn bur anhwylus mewn ysbyty. Gobeithio yn wir y bydd yn gwella yn fuan.

**Moriah**

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan ac Arwel Evans am eu gwasanaeth.

Trefn yr oedfaon ym mis Mehefin/Gorffennaf.

Mehefin 23ain Cymun undebol 2 o'r gloch Mr Lyndon Lloyd

Gorffennaf

7fed: Gwibdaith y capeli. Moriah yn trefnu.
14eg: Sul Sbesial Yr Egin 2 o'r gloch
21ain: Gwasanaeth 2 o'r gloch Elonwy Phillips
28ain: Cymun 1.30yp Parchedig Gareth Ioan.

Dymuniadau gorau i Peter James, Y Ffawydd, bydd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar y 25ain Mehefin. Pob dymuniad da wrth y gweinidog ac aelodau Moriah a'r gymuned. Iechyd da i'r dyfodol.

# MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James y Cadeirydd, Gareth Richards o Lanbed, Cogydd Prynhawn Da S4C a ddaeth i ddangos ei ddawn coginio i ni. Ei thema oedd 'Bwyd Picnic iach'.






Fe wnaeth baratoi pedwar o wahanol fwydydd ar ein cyfer a gwnaeth bopeth i edrych mor rhwydd - y paratoi a'r coginio. Roedd ganddo ei ffordd unigryw ei hun o gyfathrebu a chawsom brynhawn arbennig a hwylus dros ben yn ei gwmni. Diolchodd Meirion Morris iddo.

Bydd ein Te Mefus yng Nghaffi Beca ar Orffennaf 2il am 2 y prynhawn.
Yn rhoi raffl - Jean Howell, Meirion Morris, Eirwen Davies a Lynda Newton.

**C J Waste cyf.**



Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR

*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*

***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h. Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***

Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*



Monumental Masons

*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# GELLYWEN

**Ainon**

Diolch yn fawr i Edryd a Trudie Page am y rodd o fainc hyfryd a wnaethant osod yn y fynwent adeg priodas eu merch Delyn a Carl llynedd. Carem annog unrhyw un ohonoch, os yn mynd drwy bentref Gellywen i alw mewn yn y fynwent a threulio ennyd fach dawel ac eistedd ar y sedd a theimlo'r hedd o'ch cwmpas. Bron gellir dweud y gallwch glywed y tawelwch a'r llonyddwch wrth wrando ac yna yn sydyn, fe sylweddolwch fod swn hyfryd y nant yn sisial ganu wrth ymdroelli drwy'r fynwent. Moddion i'r enaid yn wir.

# CEFNYPANT

Estynnwn ein cydymdeimlad i Dai a Mary, Cnwc y Rhiw, i Elfed a Hywel, Lan, a'u teuluoedd, heb anghofio teulu y diweddar Elfair, eu chwaer, ar golli cefnder, sef John James, neu Jac Lan, fel y byddai pawb yn ei alw. Cofiwn hefyd am Elfed a Robert a'u teuluoedd, sef brodyr Jac.

# PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Rhys ac Eryl Phillips, Garreglwyd, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Fehefin 16eg.

Penblwydd hapus hwyr i Ann Stewart a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fai 8fed.

Bu nifer o blant ac ieuenctid yr ardal yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau arbennig i Daniel O'Callaghan a ddaeth yn 2il ar yr unawd offerynnol dan 25 oed. Roedd, hefyd, yn hyfforddi a chyfeilio i Aelwyd Hafodwenog.

Llongyfarchiadau i Don ac Eirlys James, Parc Llwyncelyn a fyddant yn dathlu eu Priodas Aur ar Orffennaf 20fed. Bydd eu merch, Donna, a'i gŵr, Tony, hefyd, yn dathlu eu Priodas Arian ar Orffennaf 17eg.

Cydymdeimlwn â Menna a Glyn Thomas a'r teulu ar farwolaeth mam Menna, sef Audrey Morris o Lanybri ar Fai 17eg.

....hefyd â Alison Jones a'i merch, Beti, o Gors Fach ar farwolaeth mamgu a hen-famgu, sef Muriel Vaughan o Dalacharn.

**Bethlehem Newydd**

Cynhaliwyd gwasanaeth blynyddol Cylch San Cler ym Methlehem Newydd ar fore Sul, Mai 12fed. Y pregethwr gwadd oedd Karen Owen a chafwyd oedfa ddiddorol iawn yn ei chwmni. Hilary oedd yn cyfeilio a chafwyd cyfle i gymdeithasu dros luniaeth ysgafn yn dilyn yr oedfa.

Annalyn oedd â gofal yr oedfa ar Fai 26ain a chyflwynodd wasanaeth apêl Ffynhonnau Byw sef apêl Undeb yr Annibynwyr eleni. Cafwyd oedfa fendithiol pryd y dysgwyd am waith Cymorth Cristnogol yn Colombia. Diolch i Annalyn am arwain yr oedfa, i bawb a gymerodd ran, i Ann a oedd yn cyfeilio ac i'r rhai fu'n gweini'r lluniaeth ar ddiwedd yr oedfa.

"Maddeuant" oedd thema'r gwasanaeth ar Fehefin 2il ac eto cafwyd oedfa ddiddorol dan ofal y gweinidog a'r aelodau. Diolch i bawb a gymerodd ran.

**Tŷ Croeso**



Mae boreau Croeso Cynnes wedi cychwyn ym Methlehem Newydd ac wedi profi'n boblogaidd iawn. Croeso i unrhyw un alw i fewn am baned a sgwrs rhwng 10.30 a 12.30 ar fore Mawrth.

# SAN CLER

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Rose Davies, Crown Villa, un o ferched y "Gothic" gynt, yn 90 oed. Nyrs oedd wrth ei galwedigaeth a bu'n Ymwelydd Iechyd a "Sister Tutor" yn Ysbyty Glangwili yn ystod ei gyrfa. Roedd ei ffydd Gristnogol yn bwysig iawn iddi. Cydymdeimlwn â'i brawd, Edmund, a'i chwaer, Cynthia, a'r teulu oll ar eu colled.


**RHYDWYN DAVIES**
**TRYDANWR**
**Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ**
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Ffôn: 01239 831212**
**Symudol: 07836 751238**

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
**SIOP Y PENTAN**
Y Farchnad, Caerfyrddin
***Anrhegion Cyfoes Cymraeg***
***Llyfrau Cymraeg***
***CD's***
***Cardiau Cyfarch***
***a llawer mwy***
**Ffôn: 01267 235044**

**Fferyllfa Clunderwen**
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

Cydymdeimlwn, hefyd â Ronnie Howells, Llwynderw Fach, Glasfryn ar farwolaeth ei briod, Mair. Cofiwn amdano ac am y plant a'u teuluoedd yn eu hiraeth a'u galar.



**Maer Sanclêr** am y flwyddyn Ddinesig 2024 – 2025 yw y Cyng. Annalyn Davies a'r Dirprwy Faer, y Cyng. Owain Grant. Mae'r ddau wedi eu hethol i wneud ail dymor. Dywedodd y Maer mai Lles a Meddwlgarwch fyddai ei ffocws am y flwyddyn sydd i ddod. Bydd noson Llwyfan lles yn cynnal ei chynnal yn Y Gât ym mis Gorffennaf er mwyn lawnsio'r cyfan. Bwriad y noson fydd rhoi cyfle i fudiadau, grwpiau ac unigolion gyflwyno beth sydd ar gynnig ganddynt yn y maes hwn a rhannu gwybodaeth am sut mae derbyn cymorth.



Cynhaliwyd noson ymgynghorol Celf Stryd yn Y Gât yn ddiweddar pan wahoddwyd y gymuned i ddod â'u syniadau ar gyfer dau furlun fydd yn cael eu peintio ar waliau talcen y ddwy fferyllfa yn Heol y Pentre. O ganlyniad i gais llwyddiannus i Gyngor Sir Gâr gan y Cyngor Tref am grant Y Deg Tref, mi fydd hyn yn un o nifer o brosiectau fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn. Y bwriad yw harddu'r dref er mwyn y trigolion ac, wrth gwrs, denu mwy o ymwelwyr.

Roedd yr artist Steve Jenkins (Jenks) yn bresennol i ddangos peth o'i waith a chasglu syniadau ar gyfer Sanclêr. Diolch i bawb a ddaeth ar y noson ac am eu syniadau ac awgrymiadau gwerthfawr. Fe fydd y gwaith yn dechrau cyn bo hir ac edrychwn ymlaen yn fawr i weld y gwaith gorffenedig.

## Y Gât, Heol Pentre, Sanclêr

Mae'n gyfnod cyffrous dros ben yn hanes yr adeilad unigryw yma sydd wedi'i leoli ynghanol Heol Pentre, Sanclêr. O edrych yn ôl, mae wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer sawl pwrpas gwahanol. Ond nawr, wrth i Gyngor Tref Sanclêr gymryd drosodd cyfrifoldeb dyddiol rhedeg Y Gât, y bwriad yw ei ddatblygu fel Hwb Cymunedol a Busnes.

Gweledigaeth y Cyngor Tref yw datblygu'r adeilad i fod yn ganolfan creadigol, busnes ac yn leoliad ar gyfer gweithgareddau cymunedol amrywiol. Mae yno ystafelloedd cyfarfod i'w hurio yn ogystal â gweithdai ar gyfer crefftwyr. Bydd caffi arbennig yn agor yno yn y dyfodol agos.

Mae'r Cyngor Tref wedi bod yn ddigon ffodus i lwyddo i dderbyn grant ar gyfer y dref gan Gyngor Sir Gâr, gan bod tref Sanclêr wedi'i phenodi i fod yn un o ddeg tref fydd yn cael eu datblygu. Penodwyd peth o'r swm fawr yma ar gyfer datblygu'r Gât, ei ail-ddiffinio a newid ychydig o'r gofod mewnol; ei beintio a phrynu celfi newydd. Fe fydd diwyg y lle yn newid yn gyfangwbl cyn bo hir.

Cynhelir bob math o weithgareddau yno yn barod a'r bwriad yw i ddatblygu ymhellach. Ffocws y Maer, y Cyng Annalyn Davies am y flwyddyn ddinesig nesaf fydd Lles a Meddwlgarwch ac mi fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y math o weithgareddau a gynigir yno. Mi fydd noson arbennig yn cael ei chynnal ar ddechrau mis Gorffennaf o'r enw Llwyfan Lles, pryd bydd mudiadau lleol yn arddangos beth fedrant gynnig yn y maes hwn er mwyn bod o gymorth.

Mae Clwb Crefft ar waith; gobeithir trefnu dosbarth yoga a mae MIND yno bob prynhawn dydd Iau. Cynhelir gweithdai am ddim bob bore Mercher sy'n cynnig hyfforddiant ar sut i goginio a bob math o bethau eraill.

Ar brynhawn dydd Gwener fe fydd Hwb Rhannu Gwybodaeth i'r gymuned yn cael ei gynnal. Cyfle i'r gymuned alw i fewn i gael gwybodaeth am bob math o destunau amrywiol megis iechyd, tai, cyllid, budd daliadau ac ati. Mi fydd y cyfan yma am ddim. Fe hysbysebir gwybodaeth yn wythnosol a fydd yn nodi beth sydd yn digwydd.

Mae'n amser cyffrous dros ben ac mae'r Cyngor Tref yn hynod falch o'r cyfle i roi bywyd newydd i'r adeilad unigryw yma. Fe gaiff ei drawnewid i fod yn wir ganolfan gymunedol er lles y gymuned.







Galwch heibio. Am fanylion pellach cysylltwch gyda-

gate@stclearstowncouncil.com

neu ar dudalen FB -Y Gât.

# RHYDWILYM

Diolch i'r Parch. Ken Thomas am wasanaeth cymun fendithiol iawn ar fore Sul, Mai 26ain.
Yr oedd oedfa Mehefin 9fed yng ngofal Brian Llewelyn. Gwnaeth nifer o'i deulu gymeryd rhan yn ystod yr oedfa, a rhai ohonynt yn ifanc iawn.

Gwnaeth Brian son am yr amser y gwnaeth dyfu fyny ynddo. Yr oedd y gymdeithas mor wahanol. Llawer yn troi o amgylch gweithgareddau'r Capeli. Diolchodd Beryl iddynt ar ran pawb oedd yn bresennol.



Brian a'r teulu ar ôl yr oedfa.

Mehefin 23ain. 2.00. Cymun - Parch Euros Jones Evans.

Llongyfarchiadau i Magi John, Blaenpant. Enillodd Magi y wobr gyntaf am ganu yn Eisteddfod yr Urdd, Meifod. Rydym yn siwr fod ei rhieni, Emyr a Helen yn falch iawn ohoni. Hefyd ei mamgu, Beryl.

Unwaith eto, diolchwn i'r rhai hynny sydd wedi bod yn brysur yn gweithio ac yn tacluso yr eiddo. Mae'r lle yn edrych mor daclus.
Gwellhad buan i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth Shan Jones a'r Parchg. Huw George yn oedfaon mis Mehefin. Diolch iddynt.

Gorffennaf
7fed: Cymundeb: Mr. Dafydd Evans - 10.30
14eg: Oedfa dan ofal Y Parchg. Huw George - 10.30

Dymuniadau gorau i Merle Jones ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Treforys.
….hefyd yr un dymuniad da i'r Parch. Huw George sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd.

### Eisteddfod yr Urdd




**Llongyfarchiadau** i Gwilym Snelson, mab Sioned a Dewi am ennill y wobr gyntaf am lefaru Bl. 5 a 6 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod.

....hefyd i Alaw, merch Dafydd ac Elin a oedd yng nghôr buddugol Ysgol Gwenllian.
....hefyd Efa Grug, Mari a Betsi, merched Rhian ac Adrian, a fu'n llwyddianus mewn nifer o gystadleuthau gyda Adran Bro Taf
....hefyd i Maria Phillips, wyres Hubert a Margaret Phillips a enillodd dwy wobr yn adran Celf a Chrefft.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â David Wood a'r teulu ar farwolaeth ei nith sef Elaine Turpin o New Moat, yn 54 oed. Cynhaliwyd yr angladd yn eglwys Sant Brynach, Llanboidy.

**Ymwelwyr**

Daeth Peter Walton (Caeglas gynt) am dro pan oedd ei fab Andrew (Welsh Whisperer) yn cynnal cyngerdd yn Neuadd Llanboidy. Symudodd Peter a Caroline i Brithdir ger Dolgellau ond maent yn derbyn Y Cardi Bach bob mis.

…..hefyd cafodd Nansi Evans a'r teulu ymwelydd o Colchester, Essex, sef John Gomm, gynt o Fferm Parsonage, Llanboidy. Bydd nifer yn cofio am y teulu yn dod i ffermio yn Parsonage ar ddechrau'r 50'au ac am John yn Ysgol Llanboidy ac Ysgol Ramadeg Hendygwyn. Cafodd y cyfle i ddod ar daith i Dde Cymru mewn bws a chymerodd y cyfle i ymweld â hen ffrindiau fel teulu Penybont a Hubert Phillips, Waunfawr a fu'n gymydog da iddynt, flynyddoedd yn ôl. Mae hanner can mlynedd wedi gadael eu hôl ar bawb, ond braf oedd hel atgofion.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth | Cyflogau
Cadw Cyfrifon | Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*
Ffôn: 01994 230474

# BANCYFELIN



Cynhaliwyd Cymanfa Bwnc eglwysi Cana, Gibeon, Ffynnonbedr a Bancyfelin bnawn Sul, 12fed o Fai yng Nghapel Ffynnonbedr. Diolch i'r plant am gyflwyno eu gwaith mor dda. Dyma lun o blant ysgolion Sul Cana a Bancyfelin a gymerodd ran yn y Pwnc.

## Gibeon

Cynhaliwyd y Gymanfa Bwnc eleni yng nghapel Ffynnonbedr ar Fai 12fed. " Y Pentecost a dyfodiad yr Ysbryd Glan" oedd thema cyflwyniad y plant a'r ieuenctid. Cafwyd anerchiad diddorol a phwrpasol gan Karen Owen. Braf oedd cael dod at ein gilydd mewn oedfa. Diolch i Elan, Holly, Llion, Fern, Daisy a Gwennan am gymryd rhan dros Ysgol Sul Gibeon ac i aelodau Ffynnonbedr am drefnu'r gwasanaeth.

Cynhaliwyd oedfa yng Ngibeon ar Fai 19eg. Roedd yr oedfa yng ngofal y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas a gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn. Cydymdeimlwyd ag aelodau teulu y diweddar William Davies, Bronygaer, a oeddent yn yr oedfa. Ann oedd yn cyfeilio.

## Henoed

Cafwyd prynhawn diddorol dros ben yn ein cyfarfod ym mis Mai, yng ngwmni ein siaradwraig gwadd, Natalie Jones.

Mae Natalie yn byw yn Sanclêr ond mae ei theulu yn hannu o Jamaica. Soniodd am sut y daeth ei mamgu drosodd i Lerpwl ac yna symud gyda'i merch i Bwllheli. Profodd y teulu hiliaeth ac mae Natalie wedi gwneud gwaith yn y maes hwn i sicrhau bod y testun yma yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm ysgol er mwyn sicrhau goddefgarwch.

Mae wedi cael gyrfa amrywiol a diddorol. Pob dymuniad da iddi yn y dyfodol. Braint oedd cael clywed yr hanes.



Yn y llun gwelir Annalyn Davies, Cadeirydd, Natalie Jones a Mai Thomas yr Ysgrifenyddes

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mr Alun Lenny, Parchedig Ken Thomas a Mr Hedd Ladd Lewis am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Gorffennaf

7fed: Annalyn Davies - Cymun am 2 o'r gloch

21ain: Natalie Morgan - Cwrdd am 10.30 o'r gloch

**Priodas Ddiemwnt**

Llongyfarchiadau i Arwel ac Ann Jones, Clos Bach fydd yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar Gorffennaf 21ain.

**Priodas Arian**

Llongyfarchiadau hefyd i Endaf ac Hannah Jones, Dolanog fydd yn dathlu eu Priodas Arian ar Gorffennaf 25ain.

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Sian Davies sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Y Fynwent**

Mae'r fynwent yn edrych yn daclus ac yn gymen un-









waith eto, diolch o galon i John Davies, Russell Davies a Bleddyn Davies am hynny.

**Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion**
Cynhaliwyd cyrddau blynyddol yng Nghalfaria ar ddydd Mawrth, Mai 14eg. Gweler adroddiad llawn ar dudalen y rhifyn hwn. Diolch o galon i bawb fu'n gweithio'n ddiwyd gyda'r holl baratoadau ymlaen llaw, yn ogystal ag ar y dydd - yn enwedig y gwragedd fu'n brysur yn gweini bwyd ar y festri.

**Cymorth Cristnogol**
Trosglwyddwyd swm o £150 i elusen Cymorth Cristnogol yn ddiweddar, er mwyn cynorthwyo hwynt i barhau gyda'r gwaith gwych maent yn ei gyflawni ar draws y byd.

### Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Edrychwn ymlaen at y noson gwis ar nos Wener, 16eg Mehefin dan ofal Ray a Lyn Burnell. Cewch yr hanes yn y rhifyn nesaf.

Mae gwaith yn mynd ymlaen i drefnu'r Ffair Hâf un Sadwrn ym mis Gorffennaf.

Mae noson gymdeithasol anffurfiol wedi ei threfnu ar gyfer nos Wener, 16eg o Awst am 7.30. Edrychwn ymlaen.

# LLANGYNIN

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ronnie Howells, Llwynderw fach, Glasfryn, Sanclêr (a chynt o Lwynderw, Llangynin) ar farwolaeth ei wraig Mair a fu farw'n dawel ddydd Mercher, 22ain Mai, yn 95 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â Ronnie a'r plant a'u teuluoedd i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

**Gwellhad buan**
Mae nifer o drigolion Llangynin wedi bod yn anhwylus ac wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Gordon Davies, Maesawelon, Melissa Morris, Llwynpiod a Don Phillips, Gorwelion. Cofiwn hefyd am Jim Martin, Brychan, sydd yn dal yn yr ysbyty ar hyn o bryd..

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Arwel Thomas, Primrose Hill, a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig yn 60 oed ar Orffennaf 4ydd.

Diolch
Dymuna teulu'r diweddar Mrs Eileen Jones, Delfan, Pwlltrap (Aber Llangynin gynt) ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parchedig Rhodri Glyn Thomas am wasanaeth parchus ac i Stuart Booth am drefnu'r angladd gydag urddas. Diolch hefyd i Meryl James am drefnu'r blodau hyfryd ac i Llety Cynin am baratoi'r bwyd. Derbyniwyd £700 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru er cof amdani. Diolch yn fawr i bawb.

# LLANBOIDY

**Gwellhad Buan**
Dymunwn yn dda i Angela Murray sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

**Sefydliad y Merched**
Yng nghyfarfod mis Mai, croesawodd Denise Harris y Llywydd, y siaradwr gwadd sef un o'n aelodau, Cathy Trueman. Ei phwnc oedd Aromatherapi. Diolchodd Denise iddi am noson ddiddorol. Roedd y te a'r bisgedi yng ngofal Sue Jones a June.



Ar Fai 23ain, trefnwyd te arbennig yn Nghaffi Hywel Dda i ddangos gwerthfawrogiad o gyfraniad ein haelod hynaf, Norah Heseltine. Mae wedi bod yn aelod o'r sefydliad yn Llanboidy ers ei sefydlu yn 1952. Cafwyd gair caredig gan Denise a rhoddodd Norah araith bwrpasol.

Yn y llun gwelir Norah gyda thair o'r aelodau sef Brenda Worthing, Valerie Dixon a Mavis Watkins.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.






# LLANDYSILIO

## Magi seren yr Urdd



Llongyfarchiadau mawr i seren fach o Landysilio a ddisgleiriodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod. Magi John enillodd y brif wobr yng nghystadleuaeth Unawd Blwyddyn 2 ac iau a hefyd 3ydd yng nghystadleuaeth Gornest y Gacen. Wyres Monica Davies, Penparc a Beryl John, Llanycefn yw Magi. Da iawn ti Magi!

## Penblwyddi

Penblwydd hapus iawn i Maria Christina Jones, Maes Y Bryn, a oedd yn 50 oed, ar Mai 19eg. Llawer o gariad oddi wrth Marc a Izzy Jones.

....hefyd i Lowri Harries a oedd yn 40 ar Mai 31ain.

....hefyd i Rob, a oedd yn 30 oed ar Fai 25ain. Llawer o gariad oddi wrth Sioned Dugmore a'r teulu.

....hefyd i Alice Bacon, Glynty Farm, a fydd yn 30 oed ar Fehefin 27ain. Llawer o gariad oddi wrth Daniel, Esther Roblin a'r teuluoedd.

....hefyd i Val Owen, a oedd yn 75 oed ar 20fed o Fai.



Tina Jones yn 50 oed



Lowri Harries yn 40 oed



Alice Bacon yn 30 oed



Val Owen yn 75 oed

## Dathlu Priodas Ddiemwnt





Llongyfarchiadau i Carol a Selwyn Thomas, Pwllcware, Llandysilio, ar ddathlu Priodas Ddiemwnt ar Fai 30ain. Llongyfarchiadau mawr.

## Genedigaethau



Llongyfarchiadau mawr i Daniel Roblin ac Alice Bacon, Glynty Farm, ar enedigaeth merch fach ar y 7fed o Fehefin. Wyres i Delyth a Michael Roblin.

...hefyd i Lauren Thomas a Tom Grover ar enedigaeth bachgen bach ar Fai 21ain. Ŵyr bach i Karen Thomas

…hefyd i Rob Mark a Sioned Dugmore ar enedigaeth bachgen bach, brawd i Elsi, ar Fai 15fed. Wŷr bach i Iris ac Andrew Dugmore.









**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdimlad dwysaf ag Ann a Bernard Bowen, Tŷ Capel, a'r teulu ar farwolaeth mam Ann, sef Mrs Mair Howells, San Cler.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Brynconin ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Da iawn wir.

**Cymdeithas Neuadd a Caeau Chwarae Llandysilio**



Cafwydd bore llwyddiannus yn llawn hwyl bore Sul, 9fed o Fai. Brodyr Young yn chwarae pêl droed yn erbyn locals Llandysilio. Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi, helpu a chymryd rhan. Mor braf oedd cael dod at ein gilydd i gael bach o hwyl. Diolch yn fawr.

**Blaenconin**
Bore Sul, Mai 5ed, pleser o'r mwyaf oedd croesawu Huw Roberts a'i wraig Gwawr i'n plith ym Mlaenconin. Mae Huw yn un o blant Blaenconin ac wedi tyfu lan ym mhentref Llandysilio. Cafwyd oedfa fendithiol iawn ganddo ac hefyd unawd swynol a'i wraig yn cyfeilio. Diolch yn fawr i Huw a Gwawr am yr oedfa.

# CLUNDERWEN

**Penblwydd**



Penblwydd hapus i Rhys Davies, Ffynnonbrodyr yn 60 oed ar y 10fed o Fehefin

**Dathlu Pum Cenhedlaeth a Phenblwydd**



Pum Cenhedlaeth o deulu Howells! Dim llawer o deuluoedd sydd yn cael dathlu'r orchest hyn! Ronnie Howells, dyn tân a gyrrwr lein y Cardi Bach gynt, a oedd yn 98 oed ar 25ain o Fai. Yn y llun gyda'i fab Gerwyn Howells, ei ŵyr Steve-Joe Howells, gor-wyres Amethyst Howells ac ei or-or-wyres cyntaf, Maeve Howells a anwyd ar Ebrill 26ain 2024. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.



**Llongyfarchiadau**
Diolch yn fawr i deulu a ffrindiau Angela, Rob a Tomi Prickett, a aeth i weld sioe 'Adams Family' yn neuadd Regency, Saundersfoot yn ddiweddar. Dywedwyd ei bod yn un o'r sioeau gorau a berfformiwyd yn Sir Benfro ers blynyddoedd. Dywedodd Angela roedd yn gymaint o wefr i weld ffrindiau a theulu yn y gynulleidfa yn mwynhau y sioe gymaint a hwythau.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Tegwen a Dave Unwin a'r teulu, ar farwolaeth mam Teg, sef Mrs Mair Howells, San Cler.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen

Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen, ar ei llwyddiant yn y Rali Sir ar 25ain o Fai, gan ddod yn dod 6ed yn gyffredinol.

**Sefydliad y Merched**

Ar 3ydd o Fehefin, daeth y milfeddyg John Wheeler, Oak Vets, Clarbeston Road i siarad am ei fywyd fel milfeddyg. Diddorol iawn.



Mae Sefydliad y Merched wedi cael llwy garu, wedi gwneud allan o bren derwen i ddathlu ei 100 mlwyddiant. Cafodd y llwy ei wneud gan 'The Lovespoon Workshop'. Mae nhw yn gwneud llwyau pren gyda llaw. Mae ei gweithdy yn Inwood, Cold Inn, Kilgetty.
Ar agor 10.00 - 1.00 a 2.00 - 4.00, dydd Llun i Gwener. www.thelovespoonworkshop.com.

Dymuna'r aelodau gydymdeimlo ag Annie Hammersley a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei mam.




# HENDYGWYN AR DAF

## Dathlu mawr yn yr Hendy-gwyn

**Tabernacl**

Fe fuodd yna ddathlu mawr yn yr Hendy-gwyn yn ddiweddar wrth i gapel y Tabernacl ddathlu ei phen-blwydd yn 150.

Agorwyd y capel ar Mai 19eg, 1874 ac union 150 mlynedd yn ddiweddarach i'r diwrnod daeth tyrfa fawr ynghyd ar ddiwrnod heulog i ddathlu'r achlysur.

Agorwyd yr oedfa gan Gôr Merched y Tabernacl a wnaeth osod naws hyfryd am weddill yr oedfa. Saith gweinidog mae'r capel wedi cael mewn 150 mlynedd ac roedd pedwar ohonynt yn bresennol sef Tom Defis, Llewelyn Picton Jones, Jill-Hailey Harries a Guto Llywelyn. Roedd y gweinidog presennol yn llywyddu ac arweiniwyd ni mewn darlleniadau a gweddi gan Tom, Llew a Jill.

Mae Clwb Hwyl y plant wedi denu dros ugain o blant i'r capel yn y flwyddyn ddiwethaf yma ac roeddent i gyd yno. Fe gawsant stori, cyn canu cân ac fe wnaethant hefyd ganu pen-blwydd hapus i'r Tabernacl ! Roedd rhai o ieuenctid y capel yn bresennol hefyd ac fe wnaethant adrodd hanes y capel ar hyd y degawdau.

Rhoddwyd cyfarchion ar ran y ddau gapel arall yn yr ofalaeth gan Pamela Lewis (Bethel, Llanddewi) a Delyth Dent (Trinity, Llanboidy). Hefyd cafwyd cyfarchion wrth Elonwy Phillips ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ac wrth Jeff Williams y Llywydd ar ran Undeb yr Annibynwyr.

Y pregethwr gwadd oedd Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb a chafwyd pregeth rymus ganddo yn seiliedig ar yr hen genedl yn codi tabernacl symudol lle y gallent addoli, wrth iddynt grwydro o'r Aifft tuag at wlad yr addewid.

Yn dilyn yr oedfa roedd gwledd wedi ei baratoi yn y festri. Aeth y cymdeithasu a'r rhannu atgofion ymlaen am amser maith a doedd neb yn awyddus i fynd adref !

Cafwyd cyfarchion wrth gapel Rhydyceisiaid ac wrth gapel Henllan. A dyma bennillion hyfryd a ysgrifennwyd gan Eleri Roberts o gapel Henllan ar gyfer yr achlysur.


LLAWN CARIAD

**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk






Bwyd Byd Byd

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Lle bu bri ar y rheilffordd a’r ffatri laeth,
Bu canrif a hanner o sugno maeth
O ffynnon daioni, y gaeaf a’r haf,
Ar aelwyd y Tabernacl ar lan afon Tâf.

Tywynned yr Arglwydd ei wenau claer
Ar bob un o’r teulu, pob brawd a chwaer,
Ei lewyrch a’i lawnder, y gaeaf a’r haf
Fo i aelwyd y Tabernacl ar lan afon Tâf.

Roedd y diwrnod yn un bythgofiadwy. Roedd misoedd o baratoi wedi bod ar gyfer y diwrnod a diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Dyma rai lluniau a dynnwyd gan ein ffotograffydd Diane Evans.


Llun o’r gynulleidfa


Y plant yn cymryd rhan


Pawb wnaeth cymryd rhan


Yr ieuenctid yn cymryd rhan


Y cymdeithasu ar y diwedd

O edrych ymlaen dyma yr oedfaon yn ystod mis Gorffennaf yn y Tabernacl a chroeso cynnes i unrhyw un ymuno unrhyw bryd.

Gorffennaf 7fed : 11.00 Oedfa Gymun
Gorffennaf 14eg : 14.00 yn yr Egin, Caerfyrddin : Gŵyl y Sul Sbesial
Gorffennaf 21ain : Trip yr Ofalaeth – cysyllter am fwy o fanylion
Gorffennaf 28ain : 9.30 Oedfa Gymun

FFENESTRI M.W.J WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda

## Enillwyr Clwb 100

EBRILL
1af - Mr Thomas, The Elms £60
2il - Wynne Phillips, Tryciau £50
3ydd - Cerrys Rees £40
4ydd - Liwsi Ebsworth £30

MAI
1af - Classic Kitchens £60
2il - George Bancroft £50
3ydd - Sian Elin Jones £40
4ydd - Eryl Rosser £30

Enillwyr Ychwanegol Pasg
1af- Ceri Vaughan Jones £50
2il - Mr. David Harries £50

## Cylch Meithrin Hywel Dda

Ar ddydd Gwener, 24ain o Fai, cawsom barti yn neuadd ysgol Llys Hywel i ffarwelio a Mrs Jayne Williams. Fe ddaeth cymuned Hendy Gwyn at eu gilydd yn rieni, staff, disgyblion a chyn ddisgyblion i ddiolch i Jayne am ei holl waith caled dros y blynyddoedd.

Mi wnaeth Jayne ddechrau ei thaith yn y Cylch pan oedd hi'n dod a'i phlant i Gylch Ti a Fi ac yna mi ddechreuodd weithio yn y Cylch yn y flwyddyn 2000. Wedi peth amser, gwnaeth hi gymryd yr awenau fel arweinydd Cylch Meithrin Hywel Dda ar ôl Wendy Davies yn 2004 a bron i 24 mlynedd yn ddiweddarach, mae Jayne yn ymddeol i fynd i fyw i Gernyw.

Mae Jayne wedi rhoi ei holl nerth dros y blynyddoedd i wneud Cylch Meithrin Hywel dda yn un sefydlog a llwyddiannus. Mae'r Cylch a hithau wedi ennill nifer o wobrau yn ystod ei gyrfa gan gynnwys ail a thrydedd wobr fel Arweinydd gorau, gwobr gyntaf Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi gorau, gwobr gyntaf Dewin a Doti ac mae wedi ennill statws arian yn safonau Mudiad Meithrin. Mae Jayne wedi cael ei henwebu i fod yn y tair uchaf yng nghategori arweinyddes eleni eto.

Hoffwn ddymuno lwc dda i Jayne yn ei hantur nesaf mewn bywyd, ond yn fwy na hynny, diolch iddi am ei holl waith caled dros y blynyddoedd o roi'r dechrau gorau i addysg gynnar plant Hendy Gwyn.




Jayne a staff Cylch Meithrin Hywel Dda



Christine Evans (sydd wedi gweithio gyda Jayne am 20 mlynedd. Jayne a Margarette Hughes (a wnaeth sefydlu'r Cylch Meithrin yn Hendygwyn dros 50 mlynedd yn ôl.

**Diolch**

Dymuna Jayne Williams, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a negeseuon caredig ar achlysur ei hymddeoliad o Gylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Hywel Dda yn ddiweddar.

Hoffai Jayne ddymuno pob lwc i Nerys Evans, yr arweinyddes newydd, ac i'r staff sy'n ei chynorthwyo.

Pob dymuniad da i bawb yn y Cylch am ddyfodol hapus a llwyddiannus.



# Llwyddiant Gŵyl Fwyd Stryd Hendy Gwyn

Roedd Gŵyl Fwyd Stryd cyntaf Hendy Gwyn, gynhaliwyd ym mis Mai yn lwyddiant ysgubol. Roedd hi'n wych croesawu dros 3000 o bobl i'r Ŵyl a codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru a'r gymuned leol ar yr un pryd.



Joseff Edwards, trefnydd diwyd Gwyl Fwyd Hendy Gwyn, yng nghwmni dau ffrind a gwirfoddolwr sef Tom Harrison ac Andy Seeley.






Roedd dros 80 o stondinwyr yn bresennol, yn fusnesau lleol oedd yn hybu eu cynnyrch amrywiol. Roedd cefnogaeth a brwdfrydedd pawb tuag at yr ŵyl yn heintus ac yn galondid mawr i'r trefnwyr. Cafwyd adborth gwych gan y mynychwyr a'r stondinwyr, llawer ohonynt wedi gwerthu eu cynnyrch i gyd ac yn hapus iawn gyda'r digwyddiad.

Rydym yn gobeitho cynnal Gŵyl arall flwyddyn nesaf, gan groesi bysedd am well tywydd bryd hynny! Diolch o galon i'r holl stondinwyr, gwirfoddolwyr, a'r bandie wnaeth gymryd rhan ac i bawb wnaeth gefnogi drwy fynychu'r digwyddiad arbennig yma. Edrychwn ymlaen yn hyderus i gynnal sawl gŵyl lwyddiannus eto yn y dyfodol.

Syniad Joseff Edwards oedd cynnal yr Ŵyl a rhaid diolch o galon iddo am ei weledigaeth, ei frwdfrydedd a'i waith diflino yn sicrhau diwrnod llwyddiannus iawn yn nhref Hendy Gwyn. Da iawn Joseff!



**Dydd Sul, Mehefin 30ain, 2024**
**am 2.00**
**Oedfa ddwy-ieithog i ddathlu 200 mlynedd**

**Bethel, Llanddewi Efelffre**

**Pregethwr Gwadd :**
**Parchg Wyn Thomas (Tir Dewi)**

***Croeso cynnes i bawb***

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed
Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# EFAILWEN

## Eisteddfod yr Urdd



**Llongyfarchiadau** i Llew Owen-Jenner, a gafodd y wobr gyntaf am wneud fideo o ymchwiliad gwyddonol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, a'r ail wobr am greu pyped. Mae Llew yn ŵyr i Anthony a Ceirios Jenner o Efailwen, ac yn edrych wrth ei fodd â'i fedalau.

## Taith ddirgel Hoelion Wyth Cangen Beca

Ar brynhawn Sadwrn, Mai 11eg a hithe'n brynhawn hyfryd o Wanwyn, aeth criw ohonom ar fws Midway, gydag Eifion wrth y llyw, ar daith ddirgel a drefnwyd gan Eurfyl. Teithio tua'r gogledd o'r Efailwen a chyrraedd ein lleoliad cyntaf o fewn llai nag awr, sef Gwersyll yr Urdd Llangrannog, lle ein croesawyd gan Iestyn Evans, un o reolwyr y ganolfan. Cawsom ein harwain i'r ffreutur fodern newydd lle roedd golygfa fendigedig o'r môr a'r arfordir cyfagos a dished a waffls yn ein disgwyl. Yna, tywysodd Iestyn ni o gwmpas y safle sydd ag adnoddau a darpariaethau gwych i fynychwyr y gwersyll. Mae'r lle wedi newid ac addasu llawer ers y bu y mwyafrif ohonom yno ddiwethaf! Diolchwyd i Iestyn am ein tywys o gwmpas y Gwersyll a chyflwynwyd siec tuag at Cronfa Cyfle i Bawb wrth cangen Beca – er mwyn galluogi plant a phobol ifanc o ardaloedd difreintiedig, i fynychu gwersylloedd yr Urdd.



Mynwent eglwys Llangrannog oedd y cyrchfan nesaf, lle wnaethom ymweld â bedd Sarah Jane Rees, neu fel sy'n fwy cyfarwydd i ni, Cranogwen (ei henw barddol ) cyn symud ymlaen i'r ardd goffa lle mae cerflun ohoni. Daeth Carys Sian Ifan i'n cyfarfod yno a chyflwynodd i ni hanes ddiddorol o fywyd Cranogwen. Diolchwyd i Carys am gyflwyniad gwych a byrlymus a hynny wedi iddi redeg rhas y Bwystfil Bach ym Maenclochog y diwrnod hwnnw – a wedi iddi hithe ruthro nôl i Llangrannog!

Gorffennwyd ein taith yn mwynhau gwledda a chymdeithasu yn Nhafarn y Pentref, Llangrannog lle cawsom groeso cynnes a bwyd blasus iawn. Roedd hi'n noswaith fendigedig ac oni bai ein bod yn gwybod yn wahanol, gallech dyngu ein bod ar y cyfandir! Ond sdim lle gwell nag arfordir Ceredigion a Phenfro pan fo'r tywydd yn braf.



# RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd oedfa Gymun arferol ar Sul, Mehefin 2il.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elfed ac Eifiona Lewis a'r teulu, 3 Llys y Coed, Llangynin ar farwolaeth cyfnither yng nghyfraith sef Mrs Mair Howells, Glasfryn, Heol yr Orsaf, San Cler.

# PENYBONT

## CFfI Penybont

Bu'n ddiwrnod anhygoel i'r clwb yn Rali'r Sir eleni - 1af i'r Adran Hŷn, 3ydd i'r Adran Iau a Fiona Phillips a Daniel O'Callaghan yn cael eu hanrhydeddu fel Llysgenhades a Dirprwy-Lysgennad! Diolch eleni eto i bawb fu'n hyfforddi. Dyma'r canlyniadau 3 uchaf,

**IAU:**

1af - Helfa Sborion - Dafydd Williams a Siôn Williams
1af - Canu Unigol - Celyn Richards
1af- Barnu Gwartheg Limousin - Gwion Jones-Howells ac Olwen Roberts
2il Adeiladu Barbeciw - Siôn Evans ac Aled Thomas
3ydd- Paratoi Llo Biff - Gwion Jones-Howells

**HŶN**

1af - Canu Unigol - Hannah Richards
1af -Trefnu Blodau (dan 21) - Elan Thomas
1af- Coginio (dan 28) - Carwyn Jones a Fiona Phillips
1af - Sgets
1af - Static
Ail - Ar y Newyddion - Elen Jones, Fiona Phillips a Teleri James
2ail - Canu Grŵp
2ail- Generation Game - Gwenllian Evans, Teleri James
2il- Barnu Gwartheg Limousin - Elan Thomas a Cerys N Jones
2il - Llongyfarchiade i Olwen hefyd am ddod yn ail yng nghystadleuaeth 'Y Fuwch', sy'n cael ei rhoi i'r unigolyn â'r nifer uchaf o farciau ar draws yr holl gystadlaethau barnu stoc.




Aelodau'r Clwb yn dathlu



Fiona Phillips a Daniel O'Callaghan

# TRELECH

**Cydymdeimlwn** fel ardal â theulu y diweddar Margaret Rees, Maesybont a fu farw yn ddiweddar. Roedd Margaret yn weithgar a chefnogol iawn i bopeth yn yr ardal. Roedd yn gyn arweinydd Aelwyd Hafodwenog ac am flynyddoedd yn gyfrifol am y gwisgoedd Dawnsio Gwerin. Roedd hefyd yn gefnogol iawn i bopeth i wneud gyda'r capel, y ganolfan a'r pentref.

**Pob dymuniad da** a gwellhad buan a llwyr i Lorraine Bowen, Gorllwyn a Rhiannon Thomas, Madox sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Llongyfarchiadau** i Terry a Meinir, Fronglyd ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto. Ganwyd Lydia Mai i Bedwyn a Buddug yng nghanol mis Mai. Chwaer fach i Anna a Gwen.

**Llongyfarchiadau** i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Braf iawn oedd gweld cymaint o blant a phobol ifanc yr ardal yn cymryd rhan.

**Llongyfarchiadau** a phob dymuniad da i Mary Baker, Fferm y Clun sy'n dathlu penblwydd arbennig yn ystod mis Mehefin.

Cynhelir Mabolgampau Trelech ar nos Fercher 17eg o Orffennaf am 5.30yh. Bydd barbeciw ar gael ar y noson hefyd. Dewch i gefnogi. Croeso cynnes i bawb.

## Capel y Graig, Trelech

Bu Ebrill a Mai yn fisoedd prysur iawn i'r eglwys oherwydd y gwahanol weithgareddau.

Daeth cyfnod Karen Owen fel gweinidog dan hyfforddiant i ben ar ddiwedd mis Ebrill. Cafwyd cyfle i ddiolch yn fawr iawn iddi yn yr oedfa undebol ar fore Sul, 28ain o Ebrill am ei gwasanaethau ysbrydoledig a'r gweithgareddau amrywiol eraill bu ynghlwm wrthynt. I ddilyn yr oedfa gymun hyfryd, cafwyd te yn y festri. Dymunwn yn dda i Karen Owen i'r dyfodol.

Ar ddydd Sul, 7fed o Ebrill cafwyd oedfa gymun gyda'r Parchg Robin Samuel yn gwasanaethu. Bu'n son am Apêl Undeb yr Annibynwyr, Ffynhonnau Byw. Ar nos Lun, 15fed o Ebrill, aeth nifer o aelodau i Gaffi'r Mart, Caerfyrddin, i gael swper blasus er mwyn codi arian tuag at Ffynhonnau Byw. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin.

Ar Fai 19eg, cynhaliwyd Gymanfa Bwnc Capel y Graig a Phen-y-bont yng Nghapel y Graig. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Eirian Wyn Lewis. Llywyddwyd yr oedfa gan Jean Lewis. Ar ddechrau'r gwasanaeth, cydymdeimlwyd ag Eleri, Chris a Deiniol Rees a'r teulu oll ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu annwyl iawn sef Mrs Margaret Rees.

Thema pwnc y bobl ifanc a'r plant oedd `Dwylo'. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Elis a Rhian Thomas. Cawsom gyflwyniad ardderchog gan y plant a'r bobl ifanc. Diolch i Eirlys Phillips ac Eleri Rees am eu gwaith gyda'r plant ac i Jean Lewis ac Eirlys Phillips am eu gwaith gyda'r bobl ifanc a'r oedolion. Yn cyfeilio oedd Eirlys Phillips a Rosemary Evans. Cawsom offeryn ychwanegol eleni, sef drymiau yn cael eu chwarae gan Dafydd ac Iwan. Yn dilyn cyflwyniad Capel y Graig, cafwyd cyflwyniad graenus a diddorol arall gan bobl Ifanc Pen-y-bont. Ei thema hwy oedd Emynwyr. Mrs Lily May Thomas oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r sgript. Dymunwyd gwellhad buan iddi gan nad oedd hi'n medru mynychu'r Gymanfa. Linda Davies oedd yn gyfrifol am yr ochr gerddorol a hi hefyd oedd yn cyfeilio. Yn dilyn pobl ifanc Pen-y-bont, bu oedolion a phobl ifanc y ddwy eglwys yn canu ac yn darllen darnau penodol o'r nawfed bennod o Efengyl Luc. Fe'u holwyd yn drylwyr ac yn gartrefol iawn gan y gweinidog gwadd. Yn dilyn yr oedfa, aethpwyd i'r ganolfan i gael lluniaeth a danteithion blasus iawn. Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r Gymanfa Bwnc ac i bawb fu'n ynghlwm wrth y paratoadau.

**Cydymdeimlad**

Gyda thristwch mawr clywsom am farwolaeth Mrs Margaret Rees, Maesybont, ar Fai 14eg. Cyn i'w hiechyd ddirywio, roedd Margaret yn un o bileri'r gymuned yn Nhrelech. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar ymhob agwedd o fywyd y pentref a'r capel. Bu Margaret yn Ysgrifennydd y Gymdeithas Chwiorydd am nifer o flynyddoedd ac yn 2012 fe'i dewiswyd gan wragedd Capel

y Graig yn Llywydd Cymdeithas Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin. Cynhaliwyd yr angladd gyhoeddus yng Nghapel y Graig, ar ddydd Mercher, 22ain o Fai a oedd yng ngofal y Parchg Robin Samuel. Fe'i gynorthwywyd gan y Parchedigion Guto Prys ap Gwynfor; Gareth Ioan a Tom Defis. Rhoddwyd y deyrnged gan Jean Lewis. Yr organyddes oedd Rosemary Evans. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda'r plant, Eurig, Eleri ac Eirian a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

Yr Ofaleth (Capel y Graig, Pen-y-bont, Ffynnonbedr, Bwlchnewydd a Chapel Cendy)
Ar nos Sadwrn, 20fed o Ebrill daeth tyrfa niferus i Gapel y Graig i gyngerdd bythgofiadwy gyda'r artistiaid Carwyn Ellis, Aelwyd Hafodwenog ac Ysgol Gynradd Hafodwenog. Arweinwyd y noson yn hwylus ac yn gelfydd gan Karen Owen. Llywydd y noson oedd Mrs Audrey Ellis, Caerdydd, sef mam Carwyn a chyn aelod gweithgar ac athrawes boblogaidd Ysgol Sul Capel y Graig. Roedd ei rhieni a'u theulu wedi bod yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn y capel. Cafwyd araith bwrpasol a diddorol iawn gydag Audrey yn son am ei theulu a'r cysylltiadau â Chapel y Graig. Diolch yn fawr iawn hefyd i Audrey am ei rhodd hael iawn.

Mae Carwyn Ellis yn adnabyddus ledled y byd fel canwr-gyfansoddwr, cerddor, cynhyrchydd ac aml-offerynnwr. Roeddwn mor falch bod Carwyn wedi mor barod i dderbyn y gwahoddiad i ddod atom i Gapel y Graig ar gyfer y gyngerdd. Cafodd y gynulleidfa eu cyfareddu a'u swyno gan ei lais cyfoethog a didwylledd geiriau'r caneuon. Roedd yn ddiddorol clywed am gefndir y caneuon. Mae'n amlwg bod Capel y Graig, lle cafodd ei fedyddio, a Threlech yn agos iawn at ei galon. Mae un o'i ganeuon `Dan y Banc' yn sôn am yr amser a dreuliodd gyda'i deulu yn ystod ei blentyndod yn Dan y Banc, Dinas, Trelech `atgofion cynnes yn fy nghalon o'm holl lefydd, am fy hoff bobl''.

Cafwyd canu hyfryd hefyd fel arfer gan y ddau gôr lleol talentog, Aelwyd Hafodwenog o dan arweiniad Mrs Sioned Page Jones ac Ysgol Hafodwenog o dan arweiniad y Pennaeth, Dr Carol James. Y cyfeilyddion oedd Mrs Sioned Page Jones a Mrs Eirlys Phillips. Rydym mor falch o'u llwyddiant hwythau yn Eisteddfod yr Urdd eleni eto.

Bydd yr elw o £2,480 yn mynd tuag at Cymorth Cristnogol yn y Dwyrain Canol.

Noddwyd y gyngerdd gan:
Arwyn Davies, Cyfrifydd Charles, Caerfyrddin; Cegin Fach y Wlad; David Harries and Co, Wholesale Factors; HDG Farm Supplies Ltd; Huw Evans Agricultural Auctioneer & Valuer; Hywel ac Elinor Evans, Noethlwyn, Meidrim; Jin Talog; LKL Construction; Masnachwyr Adeiladu DP Building Supplies; Milfeddygon Fferm Dyfed Farm Vets; Oil 4 Wales Ltd; Pethau Olyv; Tafarn Beca Trelech; Wyn's Tyre Service & Exhaust Centre St Clears.

Dymuna'r Ofalaeth ddiolch o waelod calon i Carwyn Ellis, Aelwyd Hafodwenog, Ysgol Hafodwenog, Mrs Audrey Ellis, Karen Owen, Adam Whitmore (asiant Carwyn Ellis), Elfyn Evans (gyfrifol am y sain), y noddwyr hael a phawb wnaeth gefnogi'r gyngerdd mewn unrhyw ffordd. Yn sicr, noson fydd yn aros yn hir yn y cof. Diolch yn fawr iawn i bawb.

### CROESO I CARWYN ELLIS

Heno, mae sêr uwch Dinas -
hymio bît ryddm a bas
y mae'r Felin, a hi'n hen,
yn uchel fel Rhosychen;
tai o'r wlad o gylch Trelech
yn unllais â rhai Benllech
nes dawnsia Cartref hefyd:
Copacobana yw'n byd!

Carwyn sydd wedi cyrraedd
a'i nodau'n wyliau o waedd,
mae'n garnifal i'r galon
ac i'r côr ar y Graig hon;
daw a'i alaw i'w deulu,
dod a dweud, rhwng gwyn a du,
wna'n hen ben o Dan y Banc
a'i gof yn fiwsig ifanc.

Dere mewn. Dere. Mae ias
heno. Mae sêr uwch Dinas.


Karen Owen, Carwyn Ellis a Mrs Audrey Ellis


Karen Owen gyda ysgrifenyddion yr ofalaeth

# Aelwyd Hafodwenog

Byddai unrhyw un "call" wedi tynnu'n ôl rhywfaint o gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024 wedi'r prysurdeb o Eisteddfod Sir Gâr 2023. Yn anffodus, nid yw'r gair "call" yn perthyn i griw Aelwyd Hafodwenog! Wrth i'r calendrau droi o 2023 i 2024 ar ddechrau'r flwyddyn, cafwyd yr un brwdfrydedd ag arfer gan aelodau ac arweinyddion ac o ganlyniad bu 22 o gofrestriadau cystadlu yn enw'r Aelwyd unwaith eto eleni a dwsinau o gystadlaethau arall ble gwelwyd yr aelodau yn cystadlu ar ran eu hysgolion ac aelwydydd arall!

Nos Wener cyn yr Eisteddfod, cafwyd noson hyfryd yn Ysgol Griffith Jones, San Clêr wrth i'r aelodau berfformio o flaen neuadd lawn yng nghyngerdd blynyddol yr Aelwyd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a braf hefyd oedd gweld nifer o drigolion ardal San Clêr yn ymuno gyda rhieni a ffrindiau'r Aelwyd am noson o adloniant!

Yna, dechreuwyd ar y daith i Feifod, nifer yn eu garafans yn ôl yr arfer! Dydd Mercher roedd ymddangosiad cyntaf yr Aelwyd ar y Maes wrth i griw Bl.9 ac iau'r Aelwyd gystadlu yng nghystadleuaeth y Côr a'r Parti Llefaru. Mae niferoedd Bl.9 ac iau'r Aelwyd yn uchel ar hyn o bryd, roedd yn golygu bod modd i ni gystadlu yn y Côr (mwy na 16 mewn nifer) am y tro gyntaf ers nifer o flynyddoedd a chafwyd perfformiad gwych gan y criw wedi'i arwain gan Hannah Richards a gyda Gwenllian Phillips yn cyfeilio. Ann Evans fu wrthi'n hyfforddi Parti Llefaru a chafwyd perfformiad graenus gan y Parti yma hefyd ond yn anffodus, cam bu hanes y ddau grŵp yn 2024!

Roedd dydd Iau yn ddiwrnod o ddathlu a chyfle i deulu'r Aelwyd adfyfyrio rhywfaint wrth i frawd a chwaer - Abel a Neli Rees - gystadlu yn y dawnsfeydd unigol i fechgyn/ferched. Llwyddodd y ddau ohonynt yn eu cystadlaethau gydag Abel yn llwyddo i ennill y gystadleuaeth i fechgyn a Neli yn ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y merched. Mae Abel a Neli Rees yn wyrion i'r diweddar Margaret Rees (Margaret Maesybont) a hunodd rai wythnosau cyn yr Eisteddfod. Cyfrannodd Margaret yn helaeth i fywyd yr Aelwyd am ddegawdau fel arweinydd ac fel Meistres y Gwisgoedd, rôl sydd nawr yn cael ei gyflawni gan ei merch, Eleri. Roedd llwyddiant Abel a Neli yn gyfle i'r teulu ddathlu wedi rhai wythnosau anodd ond roedd hefyd yn gyfle i deulu cyfan yr Aelwyd i gofio Margaret a diolch am ei chyfraniad i'r Aelwyd dros ddegawdau.

Wedi diwrnod o gystadlu i'r aelodau gyda'u hysgolion Uwchradd ar y dydd Gwener, roedd yn amser i'r Aelwyd dan 25 oed i gyrraedd y maes ar fore Sadwrn, a hynny am 7.30yb i'r dawnswyr dan 25 oed! Dechrau ar y gwallgofrwydd roedd y gystadleuaeth yma, gyda 18 o berfformiadau yn enw'r Aelwyd ar draws y diwrnod ac ambell i aelod (mentioning no names.....) yn achosi rhywfaint o broblemau ymarferol wrth fod ynghlwm â 10 o'r cystadlaethau yna!

Serch y prysurdeb, cafwyd perfformiadau gwych gan bawb gan lwyddo i ennill un wobr gyntaf, 5 ail wobr a 3 gwobr efydd ar draws y diwrnod. Uchafbwynt y diwrnod oedd y Côr Merched yn ennill y gystadleuaeth Côr SSA 14-25 oed a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Tipyn o gamp o ystyried bod 9 o gorau yn y gystadleuaeth ac nad oedd yr Aelwyd byth wedi ennill y gystadleuaeth yma, cyn cyflawni'r gamp y llynedd! Ceir crynodeb o'r canlyniadau llawn ar ddiwedd yr erthygl.

A dyna ni, Eisteddfod arall wedi dod i ben! Diolch o waelod calon i'r holl hyfforddwyr, cyfeilyddion ac wrth gwrs i'r aelodau am eu gwaith ar draws nifer o fisoedd! Nesaf ar y rhestr "to-do" - dechrau ymarferion ar gyfer y Côr Cymunedol yn Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst! Brêc?! Pwy sydd angen brêc dwedwch?!

Canlyniadau llawn:-

- 1af – Abel Rees – Dawns Unigol mewn Arddull Traddodiadol i Fechgyn Bl.9 ac iau
- 1af – Côr Merched SSA 14-25 oed – hyfforddwyd gan Dai Baker a Daniel O'Callaghan yn cyfeilio
- 2il – Dawns Werin dan 25 oed – hyfforddwyd gan Michelle Evans a Lleucu Phillips a Sioned Page-Jones yn cyfeilio
- 2il – Dion Jones – Dawns Unigol mewn Arddull Traddodiadol i Fechgyn Bl.10 ac o dan 25 oed
- 2il – Daniel O'Callaghan – Unawd Offerynnol 19-25 oed
- 2il – Dawns Stepio i Grŵp (hyd at 6 mewn nifer) – cyfeiliwyd gan Sioned Page-Jones
- 2il – Parti Cerdd Dant 14-25 oed – hyfforddwyd gan Daniel O'Callaghan
- 3ydd – Neli Rees – Dawns Unigol mewn Arddull Traddodiadol i Ferched Bl.9 ac iau
- 3ydd – Caian Evans – Dawns Unigol mewn Arddull Traddodiadol i Fechgyn Bl.10 ac o dan 25 oed



Côr Merched SSA 14-25 oed – hyfforddwyd gan Dai Baker a Daniel O'Callaghan yn cyfeilio

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Taith Dosbarth Rhuddem i Big Pit**

Fel rhan o waith Thema yr Ysgol – 'Amser Maith yn Ôl' – aeth Dosbarth Rhuddem i Amgueddfa Big Pit, er mwyn dysgu mwy am waith yn y pyllau glo ar ddydd Gwener, 19eg o Ebrill. Cafwyd amser da lawr yn y pwll a dysgwyd llawer am amgylchiadau yn y pyllau glo. Cafwyd cyfle hefyd i ymweld ag Aberfan a dysgu mwy am y trychineb ofnadwy.

**Celf a Chrefft yr Ysgol**

Diolch i Mrs Jayne Thomas am roi ei hamser i feirniadu gwaith Celf Ysgol Brynconin ar brynhawn Mawrth, 23ain o Ebrill. Llongyfarchiadau enfawr i Magi John am ennill Tlws Christopher Thomas am ennill y fwyaf o bwyntiau am waith Celf. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Heti Davies, Llŷr ac Ela Blethyn am ennill yr ail, trydydd a'r pedwerydd wobr.

**Taith i Draeth Amroth**



Cafodd disgyblion Dosbarth Emrallt a Rhuddem amser da ar draeth Amroth ddydd Mawrth, 23ain o Ebrill. Trefnwyd y weithgaredd gan Darwin a dysgwyd am beryglon plastig ar fyd natur y môr. Bydd mwy o weithdai yn digwydd o fewn yr Ysgol pan fydd y plant yn cael cyfle i arbrofi ag effaith plastig ar dywod.

**Twrnament Rygbi'r Urdd**

Llongyfarchiadau i dimoedd rygbi tag Bl.3 a 4 a Merched Bl.5 a 6 am wneud mor dda yn nhwrnament rygbi'r Urdd ar Ddydd Iau, 25ain o Ebrill yn Hwlffordd. Diolch i Miss Kim a Miss Davies am hyfforddi a gofalu am y disgyblion adeg y twrnament.

**Celf a Chrefft yr Urdd**

Llongyfarchiadau i bawb oedd wedi ennill gwobrau Celf a Chrefft yr Urdd. Dyma'r canlyniadau:

**Cyntaf**

Ela Blethyn – Gemwaith
Magi John – Serameg
Heti Davies – Gwaith 3D
Magi John – Ffotograffiaeth Lliw
Heti Davies – Ffotograffiaeth Du a Gwyn
Magi John - Graffeg
Charlie Young – Llun 2D
Cynan Makepeace – Gwaith 3D

**Ail**

Aurora Hammersley – Cynllunio Crys-T
Llŷr Blethyn – Ffotograffiaeth Lliw
Cynan Makepeace – Tecstiliau
Heti Davies - Tecstiliau
Magi John – Gwaith 3D
Lilybeth Phillips – Uwchgylchu

**Trydydd**

Elsie Barry – Cynllunio Crys-T
Elsie Barry – Llun 2D
Magi John – Ffotograffiaeth Du a Gwyn
Llŷr Blethyn – Ffotograffiaeth Du a Gwyn
Ela Blethyn – Argraffu
Llŷr Blethyn - Tecstiliau

**Eisteddfod Maenclochog**

Llongyfarchiadau enfawr i Charlie, Amelia, Ela a Magi am ennill gwobrau yn y y cystadlaethau Celf a Chrefft a llongyfarchiadau i Magi am ennill gwobr am ysgrifennu stori. Da iawn i Magi am gystadlu yn yr unawd ac hefyd i Ffion am gystadlu yn y llefaru. Llongyfarchiadau i'r ddwy am ennill gwobrau yn ystod y dydd.

**Llangrannog**

Cafodd blant Dosbarth Rhuddem amser braf yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ym mis Mai wrth iddynt brofi profiadau anhygoel. Cafwyd hwyl ar y llethr sgio, neidio yn y pyllau mwd a chymdeithasu yn y Gymraeg â phlant o ysgolion arall. Diolch enfawr i Miss Davies, Miss Del a Miss Kim am roi eu amser i ofalu am y plant.

**Celf a Chrefft a Chyfansoddi yr Urdd**

Llongyfarchiadau enfawr i Cynan Makepeace, Ela Blethyn, Poppy Hammersley a Magi John am ennill gwobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma gamp a hanner - gwych bob un. Llongyfarchiadau i Cynan am ennill y drydydd wobr am ei waith 3D, i Ela am ddod yn ail am waith tecstiliau, i Poppy am ennill yr ail wobr am greu adolygiad ffilm ac i Magi am ddod yn drydydd ar

greu cacen yng nghystadlaethau 'Steddfod T.

**Dathlu Diwrnod Iechyd Meddwl**

Braf oedd gweld pawb yn eu gwisgoedd gwyrdd ar ddydd Gwener, 17eg o Fai, er mwyn dathlu diwrnod iechyd meddwl. Cafwyd cyfle yn ystod y dydd i ddysgu pa mor bwysig yw hi i gadw'r meddwl yn iach a phositif.

**Taith Dosbarth Emrallt i Gastell Henllys**



Dyna braf oedd cael teithio nôl mewn amser i Oes y Celtiaid ar ddydd Llun, 20fed o Fai. Cafodd blant o Ddosbarth Emrallt amser da yng Nghastell Henllys yn dysgu am y Celtiaid.

**Gweithgaredd Llafar Llawen**

Teithiodd grŵp o blant Bl. 4 i Ganolfan Hermon er mwyn cymryd rhan mewn gweithgaredd sydd yn hybu darllen a llafar. Cafwyd hwyl yn dysgu mwy am lyfrau a dathlwyd gwaith da Ysgolion Clwstwr Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Caer Elen.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Llongyfarchiadau enfawr i Deri, Magi a'r Parti Llefaru am gystadlu mor dda yn Eisteddfod yr Urdd dros yr hanner tymor. Fe wnaeth pob un gystadlu o safon uchel ac rydym yn browd iawn o ymdrechion pob un.

Llongyfarchiadau enfawr i Magi John am gipio'r wobr gyntaf ar yr unawd Bl.2 ac Iau. Mae hyn yn gamp a hanner; ennill dros Gymru gyfan. Rydym ni fel Ysgol mor browd o lwyddiant ac ymdrech Magi – da iawn ti.

Estynnwn longyfarchiadau enfawr hefyd i Cynan, Ela, Magi a Poppy am ennill gwobrau am eu gwaith celf a chrefft a gwaith llenyddol. Mae Ysgol Brynconin wedi ennill 5 medal yn y Genedlaethol – camp a hanner!



Magi John



Parti llefaru ac enillwyr cenedlaethol

**Twrnament Criced**

Da iawn i dimoedd criced Ysgol Brynconin am gystadlu'n dda yn nhwrnament criced yn Arberth ar ddydd Mercher, 5ed o Fehefin. Llongyfarchiadau i dîm 1 am gyrraedd y rownd derfynol a dymuniadau gorau iddyn nhw wrth iddyn nhw nawr gystadlu yn rownd derfynol Sir Benfro ar ddydd Mawrth, yr ail o Orffennaf. Diolch i Miss Davies a Miss Kim am ofalu am y plant yn ystod y twrnament.

## YSGOL BRO BRYNACH

**Gŵyl Chwaraeon yr Urdd**

Ar ôl ennill y twrnamaint tag rygbi nôl yn Nhymor yr Hydref, teithiodd tîm rygbi tag merched blynyddoedd 4, 5 a 6 i Aberystwyth ar 12fed o Fai i gystadlu yn 'Gŵyl chwaraeon yr Urdd' gan gynrychioli Gorllewin Myrddin. Daeth y tîm yn drydydd yn ei grŵp, gan golli allan ar le yn rownd y chwarteri o drwch blewyn. Chwaraeodd y merched yn arbennig o dda gan ddangos gwaith tîm, disgyblaeth, parch a mwynhâd.




Tim TAG rygbi merched Bl.4, 5 a 6 yng Ngŵyl Chwaraeon yr Urdd

**Ymwelwyr**

Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Shirley Murphy atom yng nghanol mis Mai i gynnal gwasanaeth. Soniodd am bwysigrwydd caredigrwydd a'r hyn gallwn wneud i helpu eraill yn ein cymuned.

Ar ddechrau mis Mehefin cafwyd gwasanaeth hyfryd gan y Parchedig Guto Llewelyn. Adroddodd stori Jona a'r morfil ac atgoffa ni o ba mor bwysig yw hi i wrando ar Dduw a gwneud y peth iawn hyd yn oed os ydym yn bryderus neu'n ofnus.

**Neges Heddwch ag Ewyllys Da'r Urdd**

Ar y ail ar bymtheg o Fai dathlwyd Diwrnod Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd. Buodd disgyblion o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn brysur yn creu barcud yn ystod ei sesiwn Gwener Gwyllt a rhoi eu negeseuon personol o beth mae heddwch yn ei olygu iddyn nhw.



Disgyblion CA2 yn dathlu diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd

**Celf a Chrefft yr Urdd**



Llwyddiant y disgyblion yn Celf a Chrefft yr Urdd

Gweithiodd y disgyblion yn ddiwyd wrth baratoi gwaith celf a chrefft ar gyfer yr Eisteddfod eleni eto. Y thema eleni oedd 'Egni' a gweithiodd y disgyblion yn galed yn creu gwaith unigol a grŵp o safon uchel iawn. Llongyfarchiadau i'r disgyblion a gafodd llwyddiant yn ennill 1af, 2il a 3ydd ar lefel Rhanbarthol.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i Sonny Evans am dderbyn y wobr gyntaf am greu pyped yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maldwyn. Rydym yn falch iawn fel Ysgol hefyd o berfformiad Elijah Jenner-Diong a fu'n cystadlu yn yr unawd Blwyddyn 2 ac Iau ac Ella Cooper a gystadlodd yn yr unawd llinynnol Blwyddyn 6 ac Iau.




Sonny Evans 1af am greu pyped

**Ysgol ECO**

Teithiodd y Pwyllgor Eco i'r Gerddi Botaneg i ymuno yn nathliadau 30 oed Ysgolion Eco Sir Gâr. Cafodd pawb hwyl a sbri yn ymuno yn y picnic dathlu. Trefnodd y Pwyllgor Ddiwrnod Eco ar gyfer yr Ysgol gyfan ar ddydd Gwener, Mehefin y 14eg. Daeth pawb i'r Ysgol wedi gwisgo mewn gwyrdd a chafwyd cystadleuaeth creu gwrthrych 3D allan o ddefnyddiau wedi eu hail-gylchu. Yn ystod y prynhawn ymunodd y Pwyllgor gyda chynrychiolwyr o staff Mc Donalds Sanclêr i gasglu sbwriel yn y gymuned.

**Ymweliadau**

Aeth Dosbarthiadau Branwen, Rhiannon, Olwen a Gwenllian i fwynhau perfformiad o sioe Deian a Loli yn







Theatr y Lyric sef ‘Y Ribidirew Olaf’.
Aeth dosbarthiadau Hywel a Gwenllain ar daith i’r ‘Ocean Lab’ yn Wdig i arsylwi ar greaduriaid y môr. Roedd y daith yn rhan o’u thema ‘Fuoch chi erioed yn morio?’



Ymunodd disgyblion Dosbarth Pwyll gydag aelodau o’r gymuned wrth gofeb y dref fel rhan o ddathlidau cofio ‘D-Day’, a drefnwyd gan y Lleng Brydeinig. Cyflwynodd Megan a Caio dorch arbennig ar ran yr Ysgol.

**Ymwelwyr**
Daeth Ficer Sarah atom i gynnal gwasanaeth arbennig a oedd yn cynnwys criw o ymwelwyr o Frasil. Buont yn rhannu gwybodaeth am eu diwylliant, crefydd a diddordebau. Cawsom wybod fod gennym ni lawer iawn yn gyffredin. Dysgodd y plant rhai geiriau Portiwgaleg hefyd



Daeth cwmni ‘Coginio 24’ i gynnal sesiwn goginio awyr agored gyda Dosbarthiadau Olwen a Rhiannon. Cafodd y plant lawer o hwyl yn paratoi cawl ffa a thatws melys gyda chaws halloumi lleol.

# YSGOL BECA

**Gwersi cerddoriaeth**





Mae disgyblion Cwm Cerwyn wedi mwynhau derbyn gwersi cerddoriaeth oddi wrth Miss Soones dros y tymor diwethaf. Datblygodd y disgyblion sgiliau wrth chwarae offerynnau a chreu cerddoriaeth ar app cerddorol. Daliwch ati blant!

**Dathlu 80 mlynedd ers D-Day**
Ar ddydd Iau y 6ed o Fehefin, dathlwyd 80 mlynedd ers D-Day yn Normandi. Dysgodd y disgyblion am hanes y diwrnod a chwblhawyd nifer o weithgareddau hyfryd. Addurnodd disgyblion Dosbarth Carn Gyfrwy fedal newydd i’r milwyr ac fe wnaeth Dosbarth Cwm Cerwyn greu ‘morse code’ gan ddefnyddio ‘micro-bit’.

**Criced 5 a 6**
Ar ddydd Llun y 10fed o Fehefin, mynychodd blynyddoedd 5 a 6 dwrnamaint criced yn Ysgol Dyffryn Taf. Maent wedi bod yn ymarfer eu sgiliau criced drwy gydol

G. & J.M. Phillips
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o’r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705



y tymor ac roedd yn braf i weld y disgyblion yn datblygu'r rhain ymhellach drwy chwarae yn erbyn ysgolion eraill. Da iawn chi!

Tîm criced

# YSGOL HAFODWENOG

**Cinio Cymuned**
Braf oedd croesawu trigolion yr ardal i'r cinio cymuned yn yr ysgol. Cyfle iddynt cael clonc a chinio rhost blasus gan Miss Andrea. Diolch i ddisgyblion blwyddyn 6 am helpu gyda gweini'r cinio.

**Blwyddyn 6**



Roedd disgyblion blwyddyn 6 am hwdis ymadawyr eleni. Diolch i Sophie am greu'r darlun arbennig i roi ar y cefn. Diolch hefyd i Calon Mam am rhoi popeth at ei gilydd a chreu'r hwdis. Pob lwc iddynt yn yr ysgol Uwchradd yn mis Medi.

**Cyngerdd Doniau**
Cawsant gyngerdd yn Neuadd Talog yn ddiweddar. Cyngerdd i ddangos doniau disgyblion Hafodwenog gyda'r eitemau roedd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn. Llywydd y noson oedd y Cyng. Jean Lewis. Diolch i bawb am eu cefnogaeth diflino i'r ysgol.

**Eisteddfod**
Fe aeth saith eitem ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Amrywiaeth o ganu, dawnsio, clocsio ac actio. Llongyfarchiadau i'r grŵp clocsio am ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r disgyblion i gyd, mae saith eitem yn tipyn o gamp i ysgol fach wledig. Diolch yn fawr i'r hyfforddwyr am roi eu hamser i ddysgu'r disgyblion.



**Clwb ar ôl ysgol**
Rydym yn awyddus i ganfod barn rhieni a ddarpar rhieni am y posibilrwydd o ddechrau clwb gofal a hwyl i blant ar ôl ysgol i ddisgyblion Hafodwenog o Fedi 2024. Byddem yn ddiolchgar os all unrhyw ddarpar rhieni sydd â diddordeb, gysylltu gyda'r ysgol os gwelwch yn dda.

**Noson Rownderi**




Bydd noson rownderi ar gae Hafodwenog ar y 4ydd o Orffennaf, i ddechrau am 6yh. £10 y tîm (9 person mewn tîm). Bydd barbeciw a stondinau amrywiol. Croeso cynnes i bawb.

PHILLIPS A MORRIS
ADEILADWYR
Central, Clunderwen
Symudol:
07775 697803
07920 060956



Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# David Emrys Phillips (Dai Tanybryn)



Hunodd yn dawel ddydd Gwener, 17eg Mai, 2024 yn 91 mlwydd oed. Gŵr ffyddlon Winnie a'r diweddar Peggy. Tad ffyddlon Janet, Keith a Wyn. Tadcu cariadus Philip, Andrew, Huw, Lisa, Sam, Megan ac Ifan. Hen dadcu hoffus Owain, Morgan, Elis, Erin, Noa, Edie, Nellie a Nina. Tad-yng-nghyfraith parchus Iori, Julie ac Wendy.

Cafodd Dai ei eni yn 1933 mewn bwthyn bach waliau cerrig o'r enw Wrfil gerllaw Capel Moriah, Blaenwaun, lle nad oedd trydan na chyflenwad dŵr. Roedd yn un o chwech o blant i Emlyn a Maggie. Symudodd y teulu yn fuan i Felin Blaiddbwll, fferm fach rhwng Glandwr a Llanfyrnach, yn ffinio gyda rheilffordd y Cardi Bach a'r Afon Taf. Ar ôl ei addysg gynnar yn Ysgol Glandwr, hyd yn 14 oed, gadawodd i wasanaethu ar fferm leol. Symudodd Dai ymlaen wedyn gyda'i briod Peggy i gymryd cyfrifoldeb rheolaeth Fferm Cilowen, ger Login ac yna cafodd Janet a Keith eu geni yn y cyfnod cynnar.

Ar ôl cyfnod o ddeg blynedd yn y byd ffermio symudodd y teulu i Tanybryn, lle ganwyd Wyn. Penderfynodd newid cyfeiriad gan gymryd swydd gyda chwmni adnabyddus, Glan's Radio o Aberteifi. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys rhoi 'aerials' trwm teledu ar do tai, ffitio teledu a chywiro diffygion. Yn 1962 cymerodd gam mawr mentrus trwy ddechrau busnes trydan gyda chynhorthwy brwdfrydig ei wraig Peggy, yn Tanybryn. Dyma pryd dechreuwyd galw Dai yn Dai Tanybryn neu Dai Televisions. Bu sefydlu a datblygu'r busnes yn waith caled ond cyn cryn amser daeth Janet, Keith ac Wyn yn gynhorthwy sylweddol bellach a daeth cwmni D E Phillips & Sons i fodolaeth.
Yn anffodus fe gollodd Dai ei wraig, Peggy yn 1984, ergyd aruthrol iddo a'r teulu. Er colled fawr bu rhaid i Dai frwydro yn galed a chadw'r busnes i fynd. Gyda chymorth Janet, Keith ac Wyn fe ddatblygodd y cwmni yn sylweddol a llwyddo i greu enw da. Yn ogystal ag ychwanegu adeiladau pwrpasol yn Tanybryn, fe agorwyd siop drydan yng Nghrymych, sydd yn parhau.

Er mai Dai Tanybryn oedd ei enw cyffredin, ni alwai'r plant Dai yn 'boss' fel y byddai yn arferol ond galwent ef yn 'Chief', enw lawer mwy parchus a boneddigaidd a pharhaodd hyd y diwedd. Fe lwyddodd Dai i fod yn weithgar hyd cyrraedd 80 oed, er bod systemau trydanol, teledu a pheiriannau wedi newid yn sylweddol yn y cyfamser. Mae Janet, Keith ac Wyn wedi ymgymryd â rhedeg y cwmni yn llwyddiannus. Mae'r cwmni wedi cyflogi ei wyrion ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn, sef Philip, Andrew, Huw, Sam ac Ifan ac roedd Dai yn ymfalchïo yn hyn a dilyn eu datblygiad gyda diddordeb.

Bu Dai a'i ffrind Jim Televisions yn lwcus i gael eu gwahodd i sioeau cwmnïoedd mawr trydanol ar y pryd fel Toshiba, fel gwerthfawrogiad o'u cyfraniad i'r cwmnïau hynny. Mae'r pennill a gyfansoddwyd ar ei benblwydd yn 90 oed yn disgrifio'r gwmnïaeth rhyngddynt:
'O fewn y byd trydanol, cwmnïau oedd yn hael –
A Jim a Dai fu'n elwa ar bopeth oedd ar gael.
Mi fyddai'r chwisgi'n llifo, a'r ddau ffrind wrth eu bodd, a'r gobaith am drip arall, os byddai hwnnw'n rhodd!

Tua 30 blynedd yn ôl fe gyfarfu Dai gyda Winnie trwy gymorth ei ffrind Jim. Gydag amser daethant yn ffrindiau ac mewn amser ymgartrefu gyda'i gilydd ac yna priodi. Yn wir bu Dai yn hapus a chefnogol ym mwrlwm y teulu ychwanegol.


Rhwng y bwrlwm ym mywyd Winnie gyda choginio, cyfweliadau radio a theledu, ysgrifennu llyfr coginio arbennig, roedd Dai ar ôl ymddeol yn atebwr ffôn rhan amser. Cawsant gyfle i ymweld â nifer o wledydd ar wyliau gyda'r uchafbwynt y trip i Awstralia a drefnwyd gan Andrew James i weld y ffermydd gyda gwartheg duon Cymreig.

Bu Dai yn aelod ffyddlon a chydwybodol o Gapel Glandwr ac yn ddiacon a gwirfoddolwr am 40 mlynedd.

Dymuna Winnie a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a gweithred a hefyd caredigrwydd yn ystod eu profedigaeth.



Diolch arbennig i sefydliad Paul Sartori, Meddygfa Taf, Nyrsys Cymunedol Arberth a chymorth Gofalus. Diolch i Mr Ceirwyn John am drefnu'r angladd gyda pharch ac urddas.





Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED

FFÔN:-
01994 240857





**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPÂR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



# BINGO

## Neuadd Llanwinio

**Nos Wener, Mehefin 28ain am 7.30**

Croeso cynnes i bawb

Dan nawdd Pwyllgor Adloniant Llanwinio






**Jones Login**

Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**



| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 6 | Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks a thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu (3 sedd ar ôl!) | 1 |
| Iau 25 | **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** | 2 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Mer 28 | **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** (2 sedd ar ôl) | 2 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Small'** | 5* |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** (Un sedd ar ôl!) | 2 |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl** | 5* |
| Iau 31 | *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* | 1 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 2 |
| Gwe 22 | **Marchnad Nadolig Manceinion** | 3 |
| Sad 30 | **Gwyl Olau Longeat a Briste** | 2 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy** | 5* |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 8 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Sad 22 | *Sioe Gerdd Kinky Boots, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| Sul 27 | *Giovanni Pernice 'The Last Dance', CMC* | 1 |
| **Mai 2025** | | |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5 |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5 |
| Llun 16 | **Gerddi Cernyw ac Arfordir Swydd Dyfnanint** | 5 |
| Sad 21 | *& Juliet, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**



# Bysiau Cwm Taf

**Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol**



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sul 7fed Gorffennaf | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £575 | 6 Diwrnod |
| Gwe 12fed Gorffennaf | Arfordir Gogleddol yr ALBAN a Llwybr y "ROUTE 500" | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Iau 18fed Gorffennaf | GWYLIAU BYR yn y "COTSWOLDS" | £295 | 3 Diwrnod |
| Llun 22ain Gorffennaf | HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun29ain Gorffennaf | Ardal SHAKESPEARE - Stratford upon Avon a Kenilworth | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 4ydd Awst | Teithiau cychod a Rheilffyrdd Ager yn ARDAL Y LLYNNOEDD | £620 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 12fed Awst | Dewch I ddarganfod golygfeydd godidog AWSTRIA | £1,100 | 8 Diwrnod |
| Llun 12fed Awst | HAMPSHIRE ISLAND a thaith ar Hovercraft i Ynys Wyth | £495 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 20fed Awst | Gwyliau Byr yn COLEFORD, Cas Gwent a "Forest of Dean" | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 21ain Awst | SIOE AGER a Hên BEIRIANNAU DORSET, BOURNEMOUTH | £425 | 4 Diwrnod |
| Sul 25ain Awst | DEVONSHIRE a ILFRACOMBE | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Medi | Teithiau ar Gwch a Tren yn DYFNAINT a GWLAD YR HAF | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 2ail Medi | GOLEUADAU BLACKPOOL | £395 | 5 Diwrnod |
| Sul 8fed Medi | Teithiau cwch ar "Lochs" yr ALBAN ac ambell ddistyllfa chwisgi | £630 | 6 Diwrnod |
| Sadwrn 14eg Medi | LLANDUDNO a CHAMLAS LLANGOLLEN | £565 | 5 Diwrnod |
| Mawrth 17eg Medi | KILLARNEY a RING OF KERRY, IWERDDON. | £725 | 6 Diwrnod |
| Gwener 20fed Medi | WEYMOUTH ac ARFORDIR DORSET | £375 | 4Diwrnod |
| Llun 23ain Medi | PENNINE EXPLORER | £475 | 5 Diwrnod |
| Llun 30ain Medi | GOLEUADAU BLACKPOOL | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 4ydd Hydref | GWYLIAU BYR yn STRATFORD UPON AVON | £299 | 3 Diwrnod |
| Mercher 9fed Hydref | YNYS MANAW - Douglas - ISLE OF MAN | £635 | 6 Diwrnod |
| Gwener 11fed Hydref | PENWYTHNOS YN DINAS CARFADDON - BATH | £410 | 4 Diwrnod |
| Llun 14eg Hydref | TAITH DDIRGEL MIS HYDREF i ??????????????? | £385 | 5 Diwrnod |
| Gwener 18fed Hydref | WESTON SUPER MARE - Gwesty'r NEW OCEAN | £355 | 4 Diwrnod |
| Llun 21ain Hydref | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £445 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## Teithiau Undydd 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sadwrn | 6edGorff | Sioe Awyr Abertawe | £18.00 |
| Mawrth | 23ainMeh | Taith i Dan yr Ogof (Gwyliau Ysgol) | £35.00 |
| Mawrth | 24ainGorff | Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarn |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarn |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# Penblwydd Hapus



Penblwydd hapus i Osian Snelson, Caerfyrddin, a fydd yn 8 oed ar Orffennaf 4ydd. Cariad mawr wrth Dad, Mam, Gwilym a Caleb; Tadcu a Mamgu Cwmfelin; Taid Dinbych a'r teulu oll.



Penblwydd hapus i Glyn Biggs (ŵyr i Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon) fydd yn 10 ar y 21ain o Orffennaf. Er bod Glyn yn byw yn Warrington ma fe a'i frawd Rhys, yn joio dod i aros gyda Mamgu a Dadcu. Cariad oddi wrth y teulu yn lleol a Pen y Bont ar Ogwr.

## Cymdeithas Waldo Williams
## 'Dilyn Llwybrau Waldo'
## Taith Gerdded Capel Millin a'r Dderwen Gam '



Dydd Sadwrn, 29 Mehefin am 11.00 o'r gloch.
Cwrdd yng nghapel Millin ger y Rhos
Taith gerdded oddeutu 2 filltir o gapel Millin i'r Dderwen Gam ac yn ôl.
Taith ar y ffordd fydd hon.
Croeso arbennig i ddysgwyr a siaradwyr newydd
(Does dim rhaid bod yn aelod o Gymdeithas Waldo)



Teithiau cerdded eraill yn y gyfres
27 Gorffennaf- Cas 'Mael

## Cymdeithas Waldo

A hithau yn 120 mlynedd ers geni Waldo eleni mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu.

Taith **'Dilyn Llwybrau Waldo'**. Ardal Casmael, Sir Benfro:
Arweinydd Alun Ifans

Cyfarfod wrth yr ysgol Dydd Sadwrn, 27ain Gorffennaf am 11. 00 y bore. Cerdded i'r hen ysgol ble bu Waldo yn Brifathro ar adeg yr Ail Ryfel Byd ac ymlaen i Weun Casmael. 'Nôl i'r ysgol am ginio ('Pawb i ddod â'u cinio eu hunain') ac yna bydd taith o gwmpas yr Oriel luniau sydd yn yr ysgol.




OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi

TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LLIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

# CYFRES Wenfro Rhubanau Rhoswen

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Rhoswen, yr hwch, yn breuddwydio am ennill **Cwpan Y Cardis** yn y sioe fawr – rhaid ennill 20 o bwyntiau i wneud hynny.
**Cyfrifwch werth rhubanau Rhoswen i weld os oes ganddi ddigon o bwyntiau i gipio'r gwpan.**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/07/24**

**Leila Medi Thomas o Hendygwyn yw enillydd Cystadleuaeth Carped Blodeuog**
Ateb: 26 o flodau mor felyn â'r haul oedd ar y carped blodeuog.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

# Clwb Rygbi Hendygwyn

Cynhaliwyd cinio blynyddol y clwb yng Nghrug Las, ger Tyddewi yn ddiweddar. Cawsom bryd o fwyd blasus iawn cyn cyflwyno'r gwobrau blynyddol.

Dyma restr yr enillwyr :-

**Dynion**

Chwaraewr y flwyddyn – Zac France Miller
Chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf – Oli Bujega
Chwaraewr y Chwaraewyr – Cian Evans
Chwaraewr y flwyddyn y cefnogwyr – Trystan Rees
Gwobr Mark Waygood – Thomas Iraia

Cyflwynwyd Capiau Chwaraewyr Gydol Oes i Marc Jones, Raff Williams, Jack Mason a Natalie Walsh.

**Menywod**

Chwaraewr y flwyddyn – Macey Bowen
Chwaraewr y chwaraewyr – Marged Williams
Blaenwr sydd wedi datblygu fwyaf – Liwsi Ebsworth
Cefnwr sydd wedi datblygu fwyaf – Megan Cole

Cyflwynwyd llechen a blodau i Suzanne Davies am ei gwaith diflino yn hybu rygbi merched dros gyfnod o 29 mlynedd a 50 mlynedd yn rhan o'r clwb. *Suzanne Davies*



Tîm merched dan 14 fu'n cymryd rhan yng nhystadleuaeth 7 bob ochr yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.



Tîm merched dan 16 fu'n cymryd rhan yng nhystadleuaeth 7 bob ochr yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.



Chwaraewr y flwyddyn – Zac France Miller



Chwaraewr y Chwaraewyr – Cian Evans



Chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf – Oli Bujega



Gwobr Mark Waygood – Thomas Iraia



Chwaraewr y flwyddyn y cefnogwyr – Trystan Rees



Capiau Chwaraewyr Gydol Oes i Marc Jones, Raff Williams, Natalie Walsh a Jack Mason.

*Mwy o luniau'r noson wobrwyo yn y rhifyn nesaf*

*Clwb peldroed Llanboidy - parhad o dudalen 40*

**2il Dîm:** Gorffennodd yr ail dîm yn 9fed yn Adran 3 Ceredigion. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cynorthwyo'r ail dim, yn enwedig Bruce Scourfield a Robert Morgan gyda Chris Bowen yn gapten ar y tîm.

**Noson Wobrwyo**

Yn dilyn y noson wobrwyo ar Mehefin 8fed, dyma enillwyr yr adran hyn:

Chwaraewr y Flwyddyn (Tîm 1af): Dafydd Jones
Chwaraewr y Flwyddyn (2il Dîm): Jason Reynolds
Chwaraewr y Chwaraewyr (Tîm 1af): Frazer Wyatt
Chwaraewr y Chwaraewyr (2il Dîm): Chris Bowen
Chwaraewr ifanc y flwyddyn: Tomos Hicks
Prif Sgoriwr (Tîm 1af): Gethin Scourfield
Prif Sgoriwr (2il Dîm): Chris Bowen
Chwaraewr mwyaf addawol y flwyddyn: Luke Brisco
Person Clwb y flwyddyn: Rhodri Lewis
Holl Bresennol: Ifan Jones, Dion Morgan, Tomos Hicks
Chwaraewr y Flwyddyn (Tîm 1af) 2022/23: Gethin Scourfield
Chwaraewr y Chwaraewyr (Tîm 1af) 2022/23: Nick Jones

**Adran Iau**

Gyda thymor cyntaf arferol yr Adran Iau wedi dod i ben, cynhaliwyd diwrnod gwobrau ar ddydd Sadwrn, Mai 25ain, oedd yn cynnwys gemau rhwng y chwaraewyr a'u rhieni, gemau llawn hwyl (pêl-droed, dartiau a curo'r gol geidwad), bwyd a diod a hefyd cyfle i wobrwyo'r chwaraewyr i gyd gyda medalau fel diolch iddynt am eu hymroddiad ar hyd y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r holl hyfforddwyr sydd wedi rhoi o'u hamser rhwng ymarferion a gemau, yn ogystal ag i'r rhieni i gyd.

Bydd nifer o'r timau yn chwarae mewn amryw o gystadlaethau dros yr Haf. Pob lwc iddyn nhw gyd.

**Digwyddiadau'r Haf**

Pêl-droed cerdded: Bydd sesiynau Pêl-droed cerdded yn dechrau o Ddydd Mercher, Mehefin 5fed lawr ar Gae Dandre rhwng 18.00-19.00 yn wythnosol. Croeso cynnes i bawb.

**Cystadleuaeth 6 bob ochr:**

Bydd cystadleuaeth 6 bob ochr y Clwb ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 27ain. Dilynwch gyfryngau cymdeithasol y Clwb am fwy o wybodaeth.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

*Rhodri Lewis*



Tîm dan 6 oed



Tîm dan 8 oed



Tîm dan 10 oed



Tîm dan 12 oed



Tîm dan 16 oed



# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr



Wrth i ni fyfyrio ar y tymor a fu, roedd hi'n amser dathlu yng nghinio gwobrau blynyddol y Clwb. Daethom ynghyd yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg yng Nghaerfyrddin ar Mai 26ain, i ddathlu llwyddiannau a dyrchafiad y tymor i Adran 1 y Gorllewin. Fe wnaethom fwynhau cwmni ein gwesteion ac aelodau oes sef Delme Thomas, Alan Reynolds a Dorman Davies. Cafwyd araith ddifyr yn llawn hiwmor gan Rowland Phillips, cyn chwaraewr Castell Nedd a Cymru. Gwnaeth Rowland hefyd chwarae rygbi'r gynghrair dros Warrington, Cymru a Phrydain. Ers hynny, mae Rowland wedi cael llwyddiant fel hyfforddwr, yn ogystal ag ymddangos droeon dros y blynyddoedd ar raglen Jonathan ar S4C – lle daeth ei gymeriad doniol a'i hiwmor i sylw'r genedl gyfan.

Roedd y noson yn ymwneud â›r hyfforddwyr a'r chwaraewyr ac yn gyfle iddynt ymlacio ar ôl tymor caled. Cawsant eu gwobrwyo oherwydd eu gwaith caled a'u hymrwymiad drwy gydol y tymor. Hoffai'r clwb ddiolch i'r hyfforddwyr sef Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans a'r holl garfan, dan arweiniad ein capten Jac Howells a'r is-gapten Brandon Davies. Diolch hefyd i'n hyfforddwyr Ieuenctid sef Gareth Peters, Tony Lewis a Nick Bowen a'r garfan sydd wedi datblygu drwy'r tymor ac yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf gyda charfan hŷn.

Diolch hefyd i bwyllgorau iau a mini'r clwb, yr holl hyfforddwyr a gwirfoddolwyr am eu gwaith; hefyd i'r pwyllgor am eich cefnogaeth wrth i ni edrych ymlaen at y tymor nesaf. Da iawn i Donna Lewis, a enwebwyd ar gyfer gwobr genedlaethol gwirfoddolwyr Undeb Rygbi Cymru gyda chyflwyniad yn y Principality ar Mai 31ain - am ei holl waith yn y clwb fel ysgrifennydd Mini ac iau a chefnogi'r tîm ieuenctid ac arlwyo.

**Gwobrau Clwb Hŷn:**
Chwaraewr y flwyddyn - Jack Green.
Chwaraewr Pwyllgor y Flwyddyn - Garry Barnes, a enillodd wobr blaenwr yr hyfforddwyr hefyd.
Cefnwr yr hyfforddwyr - Jac Howells, a enillodd chwaraewr y cefnogwyr hefyd.
Sgoriwr mwyaf o geisiau - Dafydd Waters
Y chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf - Sion Evans.
Dyn Clwb y Flwyddyn - Emyr Jenkins.

**Gwobrau ieuenctid:**
Chwaraewr y Chwaraewyr - Jake Williams
Blaenwr y flwyddyn - Sion Porter
Cefnwr y flwyddyn - Cai Lewis
Y blaenwr sydd wedi datblygu fwyaf - Scott Blackhouse
Y cefnwr sydd wedi datblygu fwyaf - Alex Passmore

Bydd y tîm cyntaf nôl yn ymarfer ar gyfer tymor nesaf yn fuan ac rydym yn estyn croeso cynnes i chwaraewyr newydd, o bob oed, i ymuno gyda ni yn ystod yr Haf. Ein gwrthwynebwyr yn Adran 1 y Gorllewin tymor nesaf fydd Porth Tywyn, Felinfoel, Cydwely, Penclawdd, Pontarddulais, Dinbych y Pysgod, Waunarlwydd, a'r Hendy. *Gwyndaf Williams /Lluniau: Chris Rees*



Jack Green gyda Rowland Phillips



Jac Howells gyda Rowland Phillips



Dafydd Waters gyda Delme Thomas

## Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 bellach wedi dod i ben i Glwb Pêl-droed Llanboidy. Ar Ddydd Sadwrn, Mai 25ain cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo'r Adran Iau ac ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 8fed, cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo'r tîm cyntaf a'r ail dîm.

**Tîm 1af**
Ar ol tymor hir i'r tîm 1af, gorffennwyd yn 11eg yn Adran 1 Ceredigion. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cynorthwyo'r tîm cyntaf eleni, yn enwedig Dafydd Makepeace ein hyfforddwr, gyda chymorth Robert Morgan a Bruce Scourfield, gyda Jac Griffiths yn gapten ar y tîm.

*parhad ar dudalen 39*